------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 16 Mawrth 2020

Amser: 13.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

SeneddArchwilio@cynulliad.cymru

**(Cytunodd y Pwyllgor ar 9 Mawrth 2020 ar gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod hwn.)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.00)

## 2 Papurau i'w nodi

(13.00)

**2.1 Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (28 Chwefror 2020)**

(Tudalennau 1 - 10)

**2.2 Caffael Cyhoeddus: Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau (28 Chwefror 2020)**

(Tudalennau 11 - 12)

**2.3 Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Afrordirol yng Nghymru: Llythr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (4 Mawrth)**

(Tudalennau 13 - 14)

**2.4 Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood: Llythr gan Lywodraeth Cymru (5 Mawrth 2020)**

(Tudalennau 15 - 21)

## 3 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Ystyried y tystiolaeth a ddaeth i law

(13.10 - 13.25)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

## 4 Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru: Ystyried y tystiolaeth a ddaeth i law a'r materion allweddol

(13.25 - 13.45) (Tudalennau 22 - 29)

Papur Briffio: Materion Allweddol

## 5 Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Trafod yr adroddiad draft

(13.45 - 14.15) (Tudalennau 30 - 90)

PAC(5)-10-20 Papur 1 - Adroddiad drafft

## 6 Blaenraglen Waith: Haf 2020

(14.15 - 14.45) (Tudalennau 91 - 106)

PAC(5)-10-20 Papur 2 - Blaenraglen Waith

PAC(5)-10-20 Papur 3 - Rhaglen waith Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020-21

## 7 Gwella ffordd yr A465 Rhan 2: Briffio gan Swyddfa Archwilio Cymru

(14.45 - 15.30) (Tudalennau 107 - 148)

Papur Briffio

PAC(5)-10-20 Papur 4 - Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: A465 Rhan 2 - Canfyddiadau Interim

## 8 Rheoli Gwastraff: Ystyried y Llythr drafft

(15.30 - 15.45) (Tudalennau 149 - 158)

PAC(5)-10-20 Papur 5 - Llythr drafft

**Albert Heaney**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio**
**Director of Social Services and Integration**
**Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Health and Social Services Group**

Eitem 2.1

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At: Nick Ramsay AC,
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

28 Chwefror 2020

Annwyl Mr Ramsay,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Ionawr yn dilyn sesiwn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 13 Ionawr ynghylch Plant a Phobl Ifanc sydd wedi bod mewn Gofal. Rwy'n ymateb ar ran ein Swyddog Cyfrifyddu, Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Rydym yn falch bod y Pwyllgor yn croesawu gwelliannau ar draws y sector cyhoeddus i ddiwallu anghenion Plant sydd wedi bod mewn Gofal. Byddwn yn fwy na pharod i roi diweddariad pellach i'r Pwyllgor ynghylch ein gwaith i ymestyn cyfrifoldebau Rhianta Corfforaethol wrth iddo fynd rhagddo. Ymatebaf i bob un o'r pwyntiau a godir yn eich llythyr yn eu tro:

**Lleoliadau y tu allan i'r Sir a'r tu allan i Gymru**
Dechreuodd y trefniadau adrodd ar gynnydd ar 1 Ebrill 2019, a chyflwynwyd yr adroddiadau cynnydd cyntaf chwe mis yn ddiweddarach ar 30 Medi 2019. At ddibenion adrodd, mae templed wedi'i ddatblygu ac mae Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan wedi cytuno iddo.

Yn y cyfarfod ar 13 Ionawr, nid oedd yr holl ddata yn ymwneud â'r adroddiadau cynnydd chwe mis cyntaf ar gael. Gallwn nawr adrodd ffigurau cyflawn Ebrill a Medi 2019 ar gyfer Cymru gyfan, sef:

| Y tu allan i'r Sir | | | Y tu allan i Gymru | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.4.19 | 30.9.19 | +/- | 1.4.19 | 30.9.19 | +/- |
| 1663 | 1698 | +35 | 309 | 271 | +8 |

Ledled Cymru, mae'r rhain yn gyfwerth â 2% o gynnydd mewn lleoliadau y tu allan i'r sir a 2.6% o gynnydd mewn lleoliadau y tu allan i Gymru yn chwe mis cyntaf y flwyddyn. Ffigurau answyddogol yw'r rhain a gyflwynwyd yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol ac nid ydynt eto wedi mynd drwy'r broses ddilysu ffurfiol yn yr un ffordd â data a gyflwynir ar gyfer ein hystadegau cyhoeddedig swyddogol. Dangosyddion cynnar yw'r ffigurau hyn a dylid eu trin â phwyll gan eu bod yn debygol o amrywio llawer drwy gydol y flwyddyn.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE



Parc Cathays ▪ Cathays Park
Ffôn ▪ Tel 0300 025 6377
Caerdydd ▪ Cardiff
CF10 3NQ
Albert.Heaney@gov.wales

**Albert Heaney**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio**
**Director of Social Services and Integration**
**Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Department for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae trefniadau adrodd ar gynnydd i Lywodraeth Cymru nawr yn parhau'n chwarterol ac yn flynyddol. Caiff adroddiadau awdurdodau lleol eu trafod mewn grŵp Dysgu ac Adborth Cymheiriaid, a gynullir gan Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys swyddogion, awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Cafcass Cymru. O fis Ebrill eleni ymlaen ac i ategu gwaith Llywodraeth Cymru, bydd Penaethiaid Gwasanaethau Plant yn cyflwyno eu Fframwaith Dysgu gan Gymheiriaid eu hunain, yr ydym yn barod i'w gefnogi yn ôl yr angen.

O ran plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i Gymru, bydd y mwyafrif o'r rhain mewn trefniadau lle caiff plant eu lleoli â'u teulu neu eu cyfeillion, neu mewn lleoliadau arbenigol. Caiff yr holl drefniadau hyn eu hasesu gan awdurdodau lleol i fod y rhai mwyaf addas i'r plant a'r bobl ifanc o dan sylw, ac i fod er eu lles hwy.

**Datgeliadau**
Ym mis Tachwedd 2017, ysgrifennodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) at yr holl Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cyhoeddus yn gofyn i gael gwybod am blant a leolir mewn lleoliadau anghofrestredig. Nodwyd y cais hwn eto mewn llythyr pellach a anfonwyd ym mis Medi 2019. Ar ran Gweinidogion Cymru, mae gan AGC bwerau i'w gwneud yn ofynnol i ddarparu'r wybodaeth hon. Er bod AGC nawr yn cael gwybod am leoliadau o'r fath, ni all AGC fod yn hyderus bod hyn yn digwydd bob tro ac rydym yn parhau i drafod hyn mewn cyfarfodydd rheolaidd ag awdurdodau lleol. Nid yw AGC yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatgelu costau lleoliadau eithriadol. Ymhellach, nid yw AGC yn ymwybodol bod yna 'drothwy penodol'.

**Data ynghylch Cyrhaeddiad Addysgol**
Mae cael gafael ar wybodaeth ynglŷn â phlant sy'n derbyn gofal a chymorth yn parhau'n flaenoriaeth, a bwriadwn gyhoeddi'r wybodaeth ym mis Mawrth.

Serch hynny, mae angen inni sicrhau bod yr wybodaeth a gyhoeddir gennym wedi'i dilysu a'i bod o safon uchel, a golyga hyn y bydd angen inni weithiau aros hyd nes y mae'r broses briodol wedi'i dilyn. Yn yr achos hwn, gallaf gadarnhau ein bod yn aros i sawl set ddata gael eu cysylltu, i'r wybodaeth gael ei dilysu ac i ansawdd yr wybodaeth honno gael ei sicrhau. Mae swyddogion yn ystyried opsiynau i wella'r broses a'r amserlenni ar gyfer cyhoeddi'r data hyn yn y dyfodol.

**Gwerthusiad o'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal**
Mae'n ofynnol i bob Consortiwm osod targedau rhanbarthol ar gyfer gwella deilliannau plant sy'n derbyn gofal yn eu hardal o fewn eu Cynllun Cymorth Blynyddol a gyflwynir i swyddogion Llywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

Mae gan bob Consortiwm gynlluniau yn eu lle i ddirprwyo, monitro ac olrhain y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn erbyn targedau rhanbarthol. Er enghraifft:

Parc Cathays ▪ Cathays Park
Ffôn ▪ Tel 0300 025 6377
Caerdydd ▪ Cardiff
CF10 3NQ
Albert.Heaney@gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

**Albert Heaney**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio**
**Director of Social Services and Integration**
**Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Department for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Yn y De-ddwyrain, mae pob clwstwr yn llenwi ffurflen cynllunio grant sy'n cael ei chymeradwyo gan banel sy'n cynnwys consortia rhanbarthol a swyddogion awdurdodau lleol. Caiff cynnydd ar wariant arian grant ei wirio ganol y flwyddyn ac mae'r clwstwr yn ailddyrannu unrhyw arian grant sydd heb ei ddyrannu. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae pob clwstwr yn cyflwyno adroddiad gwerthuso sy'n canolbwyntio ar effaith y grant ar y cynnydd a'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sy'n blant sy'n derbyn gofal a chaiff yr adroddiadau hyn eu rhannu â phartneriaid mewn awdurdodau lleol. Mae'r gwerthusiad hwn yn llywio cynlluniau grant yn y dyfodol a'r cynnig dysgu proffesiynol rhanbarthol.

- Mae pob ysgol neu leoliad hefyd yn olrhain cynnydd dysgwyr sy'n blant sy'n derbyn gofal, gan gyflwyno'r wybodaeth hon ddwywaith y flwyddyn i awdurdodau lleol drwy gydgysylltwyr addysg plant sy'n derbyn gofal. Caiff ei dadansoddi fesul consortiwm rhanbarthol gan lunio adroddiad sy'n cael ei rannu ag awdurdodau lleol. Caiff cynnydd o ran dysgu, presenoldeb, gwaharddiadau a lefelau diwedd blwyddyn ei gofnodi a'i ystyried yn y gwaith dadansoddi.

- Yn GWE, Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru, mae ganddynt broses werthuso yn ei lle ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion i sicrhau bod clystyrau yn adrodd ar effaith y Grant ac yn olrhain dysgwyr sy'n blant sy'n derbyn gofal. Mae hyn yn cynnwys rhannu data presennol ar ddangosyddion allweddol megis presenoldeb, gwaharddiadau, Anghenion Dysgu Ychwanegol a Saesneg fel Iaith Ychwanegol.

- Bob blwyddyn, mae pob arweinydd Craidd a Chynghorwyr Cymorth Gwella yn cael gwybodaeth a data am ysgolion/clystyrau sydd â phlant sy'n derbyn gofal ledled y rhanbarth er mwyn cynorthwyo ysgolion i osod targedau heriol a thargedu cymorth sy'n cael eu monitro'n chwarterol yn unol â chynllun busnes y rhanbarth.

- Maent yn cwrdd â phob un o'r chwe chydgysylltydd addysg plant sy'n derbyn gofal a'r Rheolwyr Strategol drwy'r grŵp Sicrhau Ansawdd Rhanbarthol bob tymor. Maent yn cael gwybodaeth gan y cydgysylltwyr addysg plant sy'n derbyn gofal ynghylch y ffactorau ychwanegol sy'n effeithio ar gyrhaeddiad ac mae asesiad a phroffil Boxall hefyd wedi'u defnyddio yn y mwyafrif o ysgolion yn y rhanbarth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal pan ddefnyddir gwybodaeth ychwanegol i fonitro'r pellter sydd wedi'i deithio.

Ffynhonnell dystiolaeth arall yw'r gwerthusiad annibynnol o weithredu'r grant datblygu disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a gynhaliwyd gan ICF Consulting ac a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2019.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ▪ Cathays Park
Ffôn ▪ Tel 0300 025 6377
Caerdydd ▪ Cardiff
CF10 3NQ
Albert.Heaney@gov.wales

**Albert Heaney**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio**
**Director of Social Services and Integration**
**Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Department for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canfu'r gwerthusiad, a ganolbwyntiodd ar 2015-16 a 2016-17, yn bendant fod consortia wedi gosod amcanion strategol ac wedi gweithredu proses ddyrannu ddiwygiedig ar gyfer gweithgareddau strategol a chynaliadwy, megis meithrin gallu athrawon drwy hyfforddiant, ac ar gyfer cefnogi grwpiau plant sy'n derbyn gofal mewn awdurdodau lleol a chlystyrau ysgolion, gan fod yn ymatebol i'w hanghenion unigol.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)**
Mae data CAMHS y gofynnwyd amdano ynghylch amseroedd aros ar gyfer pob plentyn i'w gweld yn Atodiad A.

Mae data CAMHS yn ymwneud â'r cyfnod o fis Ebrill 2018 ymlaen. Yn ystod 2019, nodwyd nad oedd y data a oedd yn cael eu darparu i CAMHS ar gyfer rhai byrddau iechyd ond yn cofnodi atgyfeiriadau gan Ymarferwyr Cyffredinol (ac felly'n eithrio atgyfeiriadau gan eraill megis ysgolion a gwasanaethau un pwynt mynediad). Rydym wedi gweithio gyda byrddau iechyd i gael gafael ar ddata yn y misoedd diwethaf sy'n cynnwys pob claf sy'n aros am CAMHS ni waeth o ble y daeth yr atgyfeiriad, a hynny yn ôl i fis Ebrill 2018. Ni fydd y data a gyhoeddwyd ar gyfer cyn hynny yn adlewyrchiad cywir o gleifion sy'n aros am CAMHS ac nid yw'r data hynny wedi'u cynnwys.

**Grŵp Cynghori'r Gweinidog**
Byddwn ni, wrth gwrs, yn rhannu Adroddiad Blynyddol nesaf y rhaglen Gwella Canlyniadau ar gyfer Plant â chi. Cyhoeddwyd yr Adroddiad Blynyddol cyntaf ym mis Tachwedd 2019 a bydd yr ail adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2021.

Cynhaliodd CASCADE ym Mhrifysgol Caerdydd werthusiad ffurfiol o broseict Reflect yng Ngwent, gan asesu ei effaith ar osgoi beichiogrwydd mynych, gwella llesiant mamau biolegol ac arbedion ariannol. Roedd canfyddiadau'r gwerthusiad, a gyhoeddwyd yn 2018, yn gadarnhaol. Amlygodd fod Reflect yn cau bwlch allweddol yn y cymorth a ddarperir ar gyfer grŵp sy'n agored iawn i niwed a'i fod yn cael effaith gadarnhaol er gwaethaf anghenion amrywiol, amlweddog a lefel uchel rhieni. Mae pob rhanbarth yn defnyddio dull atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau i fesur y gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Serch hynny, mae tîm y rhaglen yn ystyried ehangu hynny i gynnal gwerthusiad o Reflect ar raddfa ehangach er mwyn ystyried deilliannau a pha mor dda y mae prosiectau wedi ymsefydlu ym mhob rhanbarth yng Nghymru.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ▪ Cathays Park
Ffôn ▪ Tel 0300 025 6377
Caerdydd ▪ Cardiff
CF10 3NQ
Albert.Heaney@gov.wales

**Albert Heaney**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio**
**Director of Social Services and Integration**
**Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Department for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Diolch ichi am atodi'r erthygl ynghylch model Buurtzorg a gwasanaethau cymdeithasol plant, yr wyf yn ei nodi â diddordeb.

Yn gywir,

**Albert Heaney**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio**
**Director of Social Services and Integration**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ▪ Cathays Park
Ffôn ▪ Tel 0300 025 6377
Caerdydd ▪ Cardiff
CF10 3NQ
Albert.Heaney@gov.wales

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Plant a Phobl Ifanc sydd wedi bod mewn Gofal

28 Chwefror 2020

**Y Cais**: I'r Pwyllgor gael dadansoddiad o'r ffigurau ar gyfer pob un o'r 12 mis diwethaf, yn cynnwys cyfartaleddau o ran amseroedd aros, a'r amseroedd aros uchaf ac isaf ar gyfer y 5 mlynedd diwethaf. Byddem yn croesawu pe baech yn cyflwyno'r data hwn fesul Bwrdd Iechyd Lleol hefyd.

**Camau gweithredu**:

1. Dadansoddiad o'r ffigurau dros y 12 mis diwethaf, fesul Bwrdd Iechyd Lleol
    a. Tabl 1A: Perfformiad dros y 12 mis diwethaf
    b. Tabl 1B: Amser aros cyfartalog wedi'i bwysoli [wythnosau], fesul Bwrdd Iechyd Lleol
2. Yr amseroedd aros uchaf ac isaf ar gyfer pob Bwrdd Iechyd dros y 5 mlynedd diwethaf
    a. Tabl 2A: Data gwybodaeth rheoli o fis Ebrill 2018

**Nodyn**:

- Nid oedd modd i **Betsi Cadwaladr** gyflwyno data ac felly nid yw'r cyfansymiau ar gyfer Cymru yn cynnwys gwasanaethau a ddarparwyd gan Betsi Cadwaladr. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gweithredu drwy fodel gwasanaethau integredig ac ar hyn o bryd nid yw'n bosibl cofnodi'r amser aros o'r amser pan ddechreuodd yr atgyfeiriad i'r amser pan ddechreuodd driniaeth gyda thimau arbenigol CAMHS.
- **Awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr yn symud bwrdd iechyd**: Ar 1 Ebrill 2019, symudodd darpariaeth gwasanaethau iechyd ar gyfer preswylwyr awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr o Abertawe Bro Morgannwg i Gwm Taf a newidiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a newidiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Fel dogfen dechnegol, darperir y tabl hwn yn Saesneg yn unig.

**Tabl** **1A: Dadansoddiad o’r ffigurau dros y 12 mis diwethaf (fesul preswylfa Bwrdd Iechyd)**

| >= 80% | 70% < x > 80% | < 70% | Allwedd |
|---|---|---|---|

| **Wales*** | **Dec-18** | **Jan-19** | **Feb-19** | **Mar-19** | **Apr-19** | **May-19** | **Jun-19** | **Jul-19** | **Aug-19** | **Sep-19** | **Oct-19** | **Nov-19** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Weeks Waiting: Up to 4 weeks | 294 | 258 | 282 | 227 | 261 | 278 | 328 | 321 | 277 | 346 | 469 | 454 |
| Weeks Waiting: Total waiting | 389 | 376 | 409 | 254 | 392 | 371 | 468 | 460 | 546 | 544 | 625 | 592 |
| Percentage waiting less than 28 days | 75.6% | 68.6% | 68.9% | 89.4% | 66.6% | 74.9% | 70.1% | 69.8% | 50.7% | 63.6% | 75.0% | 76.7% |
| **ABUHB** | | | | | | | | | | | | |
| Weeks Waiting: Up to 4 weeks | 133 | 119 | 102 | 130 | 50 | 46 | 52 | 60 | 53 | 62 | 79 | 66 |
| Weeks Waiting: Total waiting | 138 | 129 | 117 | 138 | 59 | 46 | 52 | 61 | 55 | 64 | 80 | 66 |
| Percentage waiting less than 28 days | 96.4% | 92.2% | 87.2% | 94.2% | 84.7% | 100.0% | 100.0% | 98.4% | 96.4% | 96.9% | 98.8% | 100.0% |
| **CVUHB** | | | | | | | | | | | | |
| Weeks Waiting: Up to 4 weeks | 86 | 57 | 76 | 10 | 8 | 4 | 6 | 11 | 36 | 43 | 72 | 65 |
| Weeks Waiting: Total waiting | 169 | 160 | 183 | 17 | 10 | 4 | 7 | 11 | 217 | 213 | 205 | 149 |
| Percentage waiting less than 28 days | 50.9% | 35.6% | 41.5% | 58.8% | 80.0% | 100.0% | 85.7% | 100.0% | 16.6% | 20.2% | 35.1% | 43.6% |
| **CTMUHB** | | | | | | | | | | | | |
| Weeks Waiting: Up to 4 weeks | | | | | 61 | 62 | 118 | 100 | 70 | 88 | 124 | 130 |
| Weeks Waiting: Total waiting | | | | | 126 | 120 | 223 | 184 | 132 | 109 | 142 | 164 |
| Percentage waiting less than 28 days | | | | | 48.4% | 51.7% | 52.9% | 54.3% | 53.0% | 80.7% | 87.3% | 79.3% |
| **HDUHB** | | | | | | | | | | | | |
| Weeks Waiting: Up to 4 weeks | 57 | 63 | 66 | 59 | 59 | 63 | 63 | 70 | 66 | 71 | 87 | 106 |
| Weeks Waiting: Total waiting | 62 | 66 | 67 | 64 | 61 | 70 | 70 | 80 | 70 | 73 | 89 | 107 |
| Percentage waiting less than 28 days | 91.9% | 95.5% | 98.5% | 92.2% | 96.7% | 90.0% | 90.0% | 87.5% | 94.3% | 97.3% | 97.8% | 99.1% |
| **PTHB** | | | | | | | | | | | | |
| Weeks Waiting: Up to 4 weeks | 18 | 19 | 38 | 28 | 14 | 15 | 25 | 27 | 20 | 27 | 40 | 33 |
| Weeks Waiting: Total waiting | 20 | 21 | 42 | 35 | 25 | 18 | 29 | 34 | 20 | 29 | 41 | 36 |
| Percentage waiting less than 28 days | 90.0% | 90.5% | 90.5% | 80.0% | 56.0% | 83.3% | 86.2% | 79.4% | 100.0% | 93.1% | 97.6% | 91.7% |
| **SBUHB** | | | | | | | | | | | | |
| Weeks Waiting: Up to 4 weeks | | | | | 69 | 88 | 64 | 53 | 32 | 55 | 67 | 54 |
| Weeks Waiting: Total waiting | | | | | 126 | 120 | 223 | 184 | 52 | 56 | 68 | 70 |
| Percentage waiting less than 28 days | | | | | 54.8% | 73.3% | 28.7% | 28.8% | 61.5% | 98.2% | 98.5% | 77.1% |

* Nid yw’r cyfansymiau ar gyfer Cymru yn cynnwys gwasanaethau a ddarparwyd gan Betsi Cadwaladr.

**Tabl 1B: Amser aros cyfartalog wedi'i bwysoli [wythnosau], fesul Bwrdd Iechyd Lleol**

| Bwrdd Iechyd | ABUHB | CVUHB* | CTUHB | HDUHB | PTHB** | ABMUHB* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ebr-18 | 3.2 | 3.7 | 3.6 | 1.3 | .. | 4.1 |
| Mai-18 | 3.3 | 3.8 | 3.1 | 1.2 | .. | 2.8 |
| Meh-18 | 3.1 | 3.9 | 3.5 | 1.3 | .. | 3.2 |
| Gor-18 | 2.4 | 4.3 | 4.2 | 1.5 | .. | 3.8 |
| Aws-18 | 3.3 | 5.6 | 5.5 | 1.2 | .. | 4.3 |
| Med-18 | 2.2 | 5.0 | 5.3 | 1.2 | .. | 3.6 |
| Hyd-18 | 1.8 | 4.3 | 4.4 | 2.0 | .. | 3.7 |
| Tach-18 | 1.6 | 3.1 | 3.1 | 1.6 | .. | 3.2 |
| Rhag-18 | 2.0 | 4.3 | 4.3 | 1.9 | .. | 3.8 |
| Ion-19 | 1.9 | | 4.2 | 1.4 | .. | |
| Chwe-19 | 2.0 | 5.6 | 3.9 | 1.8 | .. | 2.8 |
| Maw-19 | 1.9 | 4.3 | 2.3 | 1.9 | .. | 2.1 |

* Darparodd Cwm Taf wasanaethau ar gyfer preswylwyr Abertawe Bro Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro. Data wedi'u darparu fesul preswylfa

** Nid yw Powys ond wedi darparu data ar gyfer nifer y cleifion sy'n aros hyd at 4 wythnos a'r cyfanswm aros, felly nid yw data fesul wythnos ar gael.

.. ddim ar gael

| Bwrdd Iechyd | ABUHB | CVUHB | CTMUHB | HDUHB | PTHB** | SBUHB* | Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ebr-19 | 2.1 | 6.4 | 3.8 | 2.1 | .. | 3.3 | |
| Mai-19 | 1.5 | 7.1 | 3.7 | 1.7 | .. | 2.8 | |
| Meh-19 | 1.6 | 8.1 | 4.7 | 1.9 | .. | 2.8 | |
| Gor-19 | 1.4 | 9.1 | 4.1 | 2.0 | .. | 4.2 | |
| Aws-19 | 2.1 | 10.4 | 3.9 | 2.0 | 2.1 | 3.8 | 5.9 |
| Med-19 | 1.7 | 10.9 | 1.9 | 1.4 | 1.5 | 1.4 | 5.2 |
| Hyd-19 | 0.9 | 8.2 | 2.1 | 1.8 | 1.4 | 1.8 | 3.8 |
| Tach-19 | 0.9 | 5.1 | 2.5 | 1.8 | 2.0 | 2.6 | 2.8 |

* Mae Cwm Taf Morgannwg yn darparu gwasanaethau ar gyfer preswylwyr Bae Abertawe. Data fesul preswylfa

** Nid yw Powys ond wedi darparu data ar gyfer nifer y cleifion sy'n aros hyd at 4 wythnos a'r cyfanswm aros, felly nid yw data fesul wythnos ar gael.

.. ddim ar gael

**Tabl 2A: Yr amseroedd aros uchaf ac isaf ar gyfer pob Bwrdd Iechyd dros y 5 mlynedd diwethaf**

- Gwybodaeth rheoli o fis Ebrill 2018 yn unig
- Ar gyfer pob Bwrdd Iechyd, y nifer lleiaf o wythnosau o aros i gleifion ar gyfer unrhyw fis penodol oedd 'Dros 0 wythnos a hyd at 1 wythnos'.
- Mae'r tabl isod yn dangos yr arhosiad hwyaf i glaf ar gyfer apwyntiad, fesul darparwr a fesul mis [mae'r arhosiad hwyaf wedi'i liwio'n felyn].

| Bwrdd Iechyd | ABUHB | CVUHB* | CTUHB | HDUHB | PTHB** | ABMUHB* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ebr-18** | 19 i 20 | 9 i 10 | 18 i 19 | 4 i 5 | .. | 18 i 19 |
| **Mai-18** | 24 i 25 | 14 i 15 | 14 i 15 | 3 i 4 | .. | 12 i 13 |
| **Meh-18** | 28 i 29 | 11 i 12 | 11 i 12 | 3 i 4 | .. | 10 i 11 |
| **Gor-18** | 31 i 32 | 11 i 12 | 14 i 15 | 7 i 8 | .. | 10 i 11 |
| **Aws-18** | 36 i 37 | 14 i 15 | 14 i 15 | 4 i 5 | .. | 14 i 15 |
| **Med-18** | 28 i 29 | 12 i 13 | 16 i 17 | 5 i 6 | .. | 11 i 12 |
| **Hyd-18** | 16 i 17 | 23 i 24 | 23 i 24 | 4 i 5 | .. | 14 i 15 |
| **Tach-18** | 4 i 5 | 11 i 12 | 11 i 12 | 7 i 8 | .. | 10 i 11 |
| **Rhag-18** | 5 i 6 | 11 i 12 | 27 i 28 | 7 i 8 | .. | 10 i 11 |
| **Ion-19** | 9 i 10 | | 15 i 16 | 4 i 5 | .. | |
| **Chwe-19** | 11 i 12 | 14 i 15 | Dros 40 | 4 i 5 | .. | Dros 40 |
| **Maw-19** | 18 i 19 | 10 i 11 | 12 i 13 | 4 i 5 | .. | 6 i 7 |

* Darparodd Cwm Taf wasanaethau ar gyfer preswylwyr Abertawe Bro Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro. Data wedi'u darparu fesul preswylfa

** Nid yw Powys ond wedi darparu data ar gyfer nifer y cleifion sy'n aros hyd at 4 wythnos a'r cyfanswm aros, felly nid yw data fesul wythnos ar gael.

.. ddim ar gael

| Bwrdd Iechyd | ABUHB | CVUHB | CTMUHB | HDUHB | PTHB** | SBUHB* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ebr-19** | 8 i 9 | 14 i 15 | 27 i 28 | 4 i 5 | .. | 9 i 10 |
| **Mai-19** | 3 i 4 | 15 i 16 | 25 i 26 | 4 i 5 | .. | 9 i 10 |
| **Meh-19** | 3 i 4 | 19 i 20 | 29 i 30 | 5 i 6 | .. | 11 i 12 |
| **Gor-19** | 7 i 8 | 19 i 20 | 24 i 25 | 6 i 7 | .. | 11 i 12 |
| **Aws-19** | 4 i 5 | 21 i 22 | 10 i 11 | 5 i 6 | 3 i 4 | 10 i 11 |
| **Med-19** | 6 i 7 | 24 i 25 | 11 i 12 | 4 i 5 | 5 i 6 | 11 i 12 |
| **Hyd-19** | 2 i 3 | 22 i 23 | 8 i 9 | 4 i 5 | 4 i 5 | 4 i 5 |
| **Tach-19** | 3 i 4 | 21 i 22 | 8 i 9 | 4 i 5 | 8 i 9 | 8 i 9 |

* Mae Cwm Taf Morgannwg yn darparu gwasanaethau ar gyfer preswylwyr Bae Abertawe. Data fesul preswylfa

** Nid yw Powys ond wedi darparu data ar gyfer nifer y cleifion sy'n aros hyd at 4 wythnos a'r cyfanswm aros, felly nid yw data fesul wythnos ar gael.

.. ddim ar gael

Canfyddiadau allweddol:

- Roedd un achos ers mis Ebrill 2018 pan oedd claf wedi aros dros 40 wythnos am apwyntiad, Chwefror 2019 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Mae'n werth nodi mai'r darparwr gwasanaeth ar gyfer y claf hwn oedd Cwm Taf.
- Roedd amrywiadau mawr o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan [ers mis Ebrill 2018] tra Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda oedd fwyaf cyson.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**
—
National Assembly for Wales
**Economy, Infrastructure and Skills Committee**

Eitem 2.2

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

28 Chwefror 2020

Annwyl Nick,

**Craffu ar Waith y Gweinidog ar Ymarferion Caffael ynghylch Cymorth Cyflogadwyedd**

Cynhaliodd y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau sesiwn graffu yng nghwmni Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ddydd Mercher 12 Chwefror 2019, gan ofyn i'r Gweinidog a'i swyddogion am fethiannau yn y broses gaffael ar gyfer Cymorth Gwaith Cymru, sef contract gwerth £500 miliwn. Yn benodol, roedd y Pwyllgor am gael eglurder gan Lywodraeth Cymru ynghylch gwybodaeth a rannwyd yn ystod ein sesiwn graffu flynyddol ar y gyllideb ar **9 Ionawr**, ac yn natganiad ysgrifenedig y Gweinidog ar Gymorth Cyflogadwyedd ar **30 Ionawr**.

Er bod y Pwyllgor yn croesawu gonestrwydd y Gweinidog a'i swyddogion wrth ateb cwestiynau'r Aelodau ar 12 Chwefror, roeddem yn bryderus iawn am fethiant y ddau ymarfer caffael ar gyfer Cymorth Gwaith Cymru, ac i ba raddau y dysgwyd gwersi ers i'r ymarfer caffael cyntaf gael ei atal. Daeth i'r amlwg bod y methiannau caffael hyn bellach yn cael eu hadolygu ar y lefel uchaf o fewn Llywodraeth Cymru. Mae trawsgrifiad o'r sesiwn ar gael **yma**, ac mae'n ddealladwy pam fod y **cyfryngau wedi dangos cryn ddiddordeb** yn y mater hwn.

Rwyf wedi rhoi gwybod i'r Gweinidog ei bod yn briodol i ni gyfeirio'r mater at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y cam hwn, o ystyried eich swyddogaethau mewn perthynas â

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddESS@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEIS@assembly.wales
0300 200 6565

chraffu ar wariant cyhoeddus, a gwaith blaenorol gan eich pwyllgor ac Archwilydd Cyffredinol Cymru ar **gaffael cyhoeddus**. Felly, rwy’n ysgrifennu atoch fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i dynnu eich sylw at y dystiolaeth a gafwyd gennym.

Pe bai Swyddfa Archwilio Cymru neu’ch Pwyllgor yn dewis ymchwilio i’r mater hwn ymhellach, byddem wrth gwrs yn croesawu cael y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y gwaith hwnnw, o ystyried cylch gwaith Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau o ran cyflogaeth a sgiliau.

Mae copi o’r llythyr hwn wedi’i anfon at Archwilydd Cyffredinol Cymru a Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, er gwybodaeth iddynt.

Cofion gorau

Russell George AC

Cadeirydd

Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Copi at:

Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru

Ken Skates AC, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AM
Chair
Public Accounts Committee
National Assembly for Wales

Nick.ramsay@assembly.wales

4 March 2020

Dear Nick

**Progress in delivering the Coastal Risk Management Programme**

I wish to provide an update on the above programme following a commitment to do so in 2018.

Significant progress has been made in the delivery of capital schemes under the Coastal Risk Management Programme (CRMP) since its inception, with the first capital schemes nearing completion and others commencing construction works this spring. Local Authority delays in undertaking the design and pre-construction phases of some schemes have led to me allowing an extra year and so extending the programme to March 2022. This was a decision taken on the advice of the CRMP Programme Board.

In February 2018 you asked to see a mid-Programme review of CRMP when it was undertaken. Due to the extension of the programme by a year, it is premature to carry out a full review until more schemes have reached a point where meaningful lessons for future work can be learnt.

There are additional reasons to defer carrying out a mid-Programme review.

Local Authorities are under significant pressure with work in preparation for EU Exit, and I am concerned engaging with a review process would place a large additional burden on them at an already challenging time.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.



We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

My officials have been actively engaging with all schemes being developed under CRMP to understand how the programme is working on the ground, and whether any further support is needed to ensure schemes can progress as quickly as possible. The feedback they have obtained is the scheme is working well for most applicants, the innovative finance mechanism remains appropriate for the large schemes, and the 100% funding support to develop outline business cases was not only welcomed, but helped to de-risk development of schemes in the early stages. I have had the overall intervention rate of 75% raised with me a number of times. I remain of the view 75% is a generous and appropriate support rate for these schemes without evidence to the contrary.

The Programme remains on track to allocate its full budget before March 2022, and therefore a later mid Programme review would enable a better assessment to be made of how schemes are delivering the benefits their business cases set out. An earlier review would not have sufficient information available on how effectively schemes are delivering what they set out to do and therefore would struggle to reach any conclusions on benefits or value for money.

In order for a review to properly inform future decisions on the long-term need for, and shape of, support for specific coastal schemes beyond CRMP, it will need to be carried out once sufficient schemes have been constructed. Given my officials remain in close touch with all CRMP schemes being developed, deferring this work is not a risk to delivering the programme, but will ensure an effective review is carried out at the right time.

Regards

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Eitem 2.4

**Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol**
**Economy, Skills and Natural Resources Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd - Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd,
CF99 1NA

5 Mawrth 2020

Annwyl Gadeirydd

Rwyf yn ysgrifennu mewn ymateb i lythyr y Pwyllgor ar 21 Ionawr.  Rwyf yn ymddiheuro am yr oedi cyn ymateb.

Gallaf gadarnhau bod y ffigurau ar gyfer y gwariant yng Nghymru a'r digolledu fel a nodir yn llythyr y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth i'r Pwyllgor ar 23 Rhagfyr 2019 yn gywir.  (Bu cynnydd bychan yn y ddau ffigur ers mis Rhagfyr!)  Mae'r ddau gategori yn amlwg wedi cynyddu ers mis Tachwedd 2018, ac mae hyn i'w ddisgwyl o ystyried natur hirdymor y buddsoddiadau. Mae cyfanswm y buddsoddiad drwy'r Cyllid Buddsoddi yn y Cyfryngau (MIB) hefyd wedi aros yr un fath rhwng y cyfnodau hyn.  Er mai'r bwriad gwreiddiol, fel rhan o'r cytundeb partneriaeth gyda Pinewood, oedd buddsoddi hyd at uchafswm o £30m drwy'r dull hwn o weithio, ni chafodd rhagor o arian ei fuddsoddi yn dilyn penderfyniad Pinewood i adael y broses MIB a'r oedi a fu yn y rhaglen wedi hynny.

Yn dilyn lansiad Cymru Greadigol ar 29 Ionawr 2020, mae'r MIB wedi cau yn swyddogol, ac ni chaiff rhagor o fuddsoddiadau eu gwneud drwy'r rhaglen hon. Cafodd pob cyllid a ad-dalwyd hyd yma o'r MIB ei ail-fuddsoddi yn y diwydiant.

Mae Cymru Greadigol yn edrych ar opsiynau ar hyn o bryd ar gyfer cronfa newydd fydd yn cael ei sbarduno gan y diwydiant. Caiff unrhyw gronfa newydd ei datblygu ar y cyd â'r diwydiant i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'u hanghenion. Bydd unrhyw symiau fydd yn cael eu digolledu o brosiectau MIB yn cael eu hailfuddsoddi mewn ymyraethau sy'n flaenoriaeth drwy'r dull pwrpasol newydd hwn.

Yn ôl ei natur, gall y broses ddigolledu ddigwydd dros sawl blwyddyn wedi cwblhau y cynhyrchu, ac mae'n anodd rhoi amserlen benodol o pryd y byddwn yn disgwyl i'r digolledu ddigwydd ar gyfer pob

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 0300 025 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

prosiect. Mae hefyd yn anodd rhagweld i ba raddau y bydd pob prosiect yn cael eu digolledu yn llawn. Er enghraifft, mae'n bosibl yr effeithir ar rymoedd y farchnad a hawliau a thrwyddedu eiddo deallusol, yno gystal â ffactorau allanol eraill.

Ar wahân i hyn, rydym wedi gwneud rhai rhagdybiaethau - yn seiliedig ar natur y prosiectau unigol, eu hamgylchiadau a'r proffil risg - i nodi'r posibilrwydd i bob prosiect MIB ddigolledu ei fuddsoddiad yn llawn. Mae'r wybodaeth hon wedi ei hychwanegu at y tabl sy'n cael ei rannu gyda'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2019 (wedi'i atodi yn Atodiad A).

Gwybodaeth am y Gwariant yng Nghymru

Y 'Gwariant yng Nghymru' yw'r swm, neu grynhoad o symiau unigol a gafodd ei wario gan brosiectau/gynyrchiadau ar nwyddau a gwasanaethau o Gymru yn ystod cyfnod y prosiect. Cafodd y ffigurau hyn eu darparu i Lywodraeth Cymru gan y cwmni cynhyrchu ar ddiwedd y cynyrchiadau. Ni wnaeth Llywodraeth Cymru barhau i dracio 'Gwariant Cymru' wedi hyn, gan i brosiectau gael eu cwblhau yn unol â thelerau y cytundebau ariannu.

Roedd y gwariant yng Nghymru yn ofynnol ar gyfer pob prosiect MIB safonol. Cytunwyd ar y gwariant cymwys a'i nodi o fewn cytundebau cyllid cynhyrchu fel gwariant craidd ar nwyddau a gwasanaethau a ddarperir gan fusnesau a gweithwyr llawrydd sydd wedi'u lleoli ac sy'n gweithio yng Nghymru. Caiff bod wedi eich lleoli yng Nghymru ei ddiffinio fel bod â chyfeiriad masnachu mewn adeilad yng Nghymru gydag o leiaf un gweithiwr llawn amser parhaol. Cafodd y diffiniad hwn ei ddefnyddio yn gyson ar draws pob prosiect. Cafodd y targedau eu gosod ar gyfer pob prosiect, yn briodol i amgylchiadau unigol a natur y buddsoddiad. Mae targedau gwariant yng Nghymru ar gyfer pob prosiect wedi eu cynnwys hefyd yn y tabl sydd wedi'i atodi.

Yr eithriad i hyn yw prosiectau datblygu (wedi'u nodi gyda N/A yn erbyn y gwariant yng Nghymru yn y tabl sydd wedi'i atodi). Ni chafodd y gwariant yng Nghymru ei dracio ar gyfer prosiectau datblygu gan i'r cyllid gael ei ddefnyddio ar gyfer datblygiadau cynnar ac roedd fel arfer ar lefel isel iawn. Roedd y buddsoddiadau hyn am symiau llai (oddeutu £25 mil) a chawsant eu cymeradwyo ar y ddealltwriaeth na fydd y prosiect yn cael ei gynhyrchu yn llawn am sawl blwyddyn. Cafodd y buddsoddiadau eu gwneud ar y sail y bydd Llywodraeth Cymru, waeth ym mha wlad bynnag y caiff y cynhyrchiad ei wneud, yn cael eu digolledu am y buddsoddiad gwreiddiol yn ogystal â chanran y cytunwyd arno yn seiliedig ar gyfraddau masnachol.


Gwybodaeth am Stiwdio Pinewood Cymru

Mae Siwdio Pinewood Cymru ar les ac yn llawn ar hyn o bryd. Caiff 30% o'r lle ei ddefnyddio gan 14 o swyddfeydd ble y mae trwyddedigion sy'n fusnes o fewn y gadwyn gyflenwi i'r diwydiannau creadigol. Caiff y 70% sy'n weddill ei ddefnyddio fel ystafelloedd cynhyrchu a llwyfan i Bad Wolf.

Y bwriad yw y bydd Llywodraeth Cymru yn cadw Stiwdio Pinewood Cymru fel stiwdio ar gyfer y dyfodol agos, gan bod prinder mewn lle stiwdio ledled y DU.Caiff yr adeilad ei ail-frandio pan fydd Pinewood yn gadael ym mis Mawrth, ond ni chafodd unrhyw benderfyniadau eu gwneud eto ar y brandio yn y dyfodol.

Caiff unrhyw drefniadau lesio yn y dyfodol sy'n cael eu cytuno ar gyfer y stiwdio eu gwneud ar delerau masnachol.  Caiff unrhyw elw sy'n dod o gynnal y stiwdio ei ail-fuddsoddi i'r diwydiant gan Cymru Greadigol i gyflawni'r blaenoriaethau a amlinellir yn nogfen blaenoriaethau LlC ar gyfer y diwydiannau creadigol. Mae hyn yn cynnwys cynnal y twf yn y diwydiant sgrin a pharhau i ystyried Cymru fel un o'r lleoliadau gorau ar gyfer cynhyrchu ffilm a theledu  a chefnogaeth ar gyfer datblygu sgiliau a doniau.

Yn gywir



**ANDREW SLADE**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

**Atodiad A**

**Roedd y ffigurau MIB hefyd yn cynnwys llythyr y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 23 Rhagfyr 2019, gan gynnwys gwybodaeth ar wariant wedi'i dargedu yng Nghymru a pha mor debygol y byddai digolledu pellach o'r buddsoddiad.**

| Prosiect | Gwerth y Buddsoddiad £miliwn | Swm a ddigolledwyd £miliwn | Y Swm Net a Enillwyd / (a Gollwyd) Hyd Yma £miliwn | Gwariant wedi'i Dargedu yng Nghymru £miliwn | Y Gwariant yng Nghymru Hyd Yma £miliwn | Y posibilrwydd o ddigolledu y buddsoddiad llawn (0-5)* | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | O dan Reolaeth Pinewood | | | | | | |
| Take Down | 3.144 | 1.113 | (2.031) | 1.0 | 1.089 | 1 | Ffilm wedi gwerthu yn ei marchnadoedd mwyaf. Disgwyl ychydig iawn o ddigolledu pellach. |
| Their Finest | 2.000 | 2.050 | 0.050 | 1.3 | 1.618 | 1 | Digolledìad wedi'i gwblhau yn unol â'r cytundeb. Disgwyl ychydig iawn o ddigolledu |
| The Collection | 1.750[1] | 0.250 | (1.500) | 5.5 | 5.187 | 1 | Cynhyrchiad heb gael cyfres arall. Digolledu pellach yn annhebygol iawn. |
| Show Dogs | 1.566[2] | 0 | (1.566) | 4.737 | 4.338 | 0 | Perfformiad gwylwyr yn is |

[1] Mae gwerth y buddsoddiad yn cynnwys £600,000 o arian grant o'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | na'r disgwyl. Angen gwerthiant sylweddol i ddechrau digolledu LlC |
| Journey's End | 0.850 | 0.631 | (0.219) | 1.5 | 0.903 | 1 | Wedi gwerthu i farchnadoedd mawr. Disgwyl ychydig iawn o ddigolledu pellach. |
| Don't Knock Twice[3] | 0.630 | 0.612 | (0.0186) | 0.63 | 0.641 | 3 | Unrhyw arian ychwanegol |
| Minotaur | 0.026 | 0 | (0.026) | N/A | N/A[4] | 4 | Yn cael ei datblygu - byddai ad-daliad llawn a premiwm yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf y prif ffilmio |
| Lionel the First | 0.025 | 0 | (0.025) | N/A | N/A[5] | 4 | Yn cael ei datblygu - byddai ad-daliad llawn a premiwm yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf y prif ffilmio |
| **Cyfanswm** | **9.991** | **4.656** | **(5.335)** | **14.667** | **13.776** | | |
| | **O dan Reolaeth Llywodraeth Cymru** | | | | | | |
| Trampires[6] | 2.000 | 0 | (2.000) | 1.6 | 1.621 | 3 | Credyd Treth i ddod Cynhyrchiad yn chwilio am |

[2] Mae gwerth y buddsoddiad yn cynnwys £362,000 o arian grant o'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau
[3] Cafodd Don't Knock Twice £75,000 o arian grant hefyd o dan gynllun Cyllid Busnes Llywodraeth Cymru
[4] Nid yw cyllid datblygu'n cynnwys ymrwymiad i wario yng Nghymru
[5] Nid yw cyllid datblygu'n cynnwys ymrwymiad i wario yng Nghymru
[6] Cafodd Trampires hefyd £652,572 o arian grant o dan gynllun Cyllid Busnes Llywodraeth Cymru.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | ddosbarthwr. |
| Eternal Beauty | 1.050 | 0.770 | (0.280) | 1.214 | 1.255 | 4 | I'w ryddhau yn 2020. Cyn gwerthiant yn parhau |
| Bang | 0.350 | 0 | (0.350) | 1.5 | 2.562 | 3 | Cynhyrchu cyfres 2 wedi'i gwblhau. Disgwyl rhagor o werthiant o gyfres 1. |
| Tiny Rebel | 0.318 | 0 | (0.318) | 0.25 | 0.260 | 3 | Lansio'r gêm yn 2019. Disgwyl digolled0iad |
| Goose Green | 0.025 | 0 | (0.025) | N/A | N/A[7] | 4 | Yn cael ei datblygu - byddai ad-daliad llawn a premiwm yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf y prif ffilmio |
| Almost Never (True Believers gynt)[8] | 0.622 | 0 | (0.622) | 2.118 | 2.118 | 3 | Cynhyrchu cyfres 2 wedi'i gwblhau. Disgwyl rhagor o werthiant o gyfres 1. |
| Six Minutes To Midnight[9] | 0.750 | 0.075 | (0.675) | 3.88 | 3.520 | 4 | I'w ryddhau ym mis Mai 2020. Cyn gwerthiant yn parhau |
| **Cyfanswm** | **5.115** | **0.845** | **(4.270)** | **10.562** | **11.336** | | |
| **Cyfanswm Cyffredinol** | **15.106** | **5.501** | **(9.605)** | **25.229** | **25.112** | | |

* 0 = annhebygol iawn o gael ei ddigolledu'n llawn, 5 = tebygol iawn o gael ei ddigolledu'n llawn

[7] Nid yw cyllid datblygu'n cynnwys ymrwymiad i wario yng Nghymru
[8] Y cynhyrchiad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd neu newydd ei gwblhau.
[9] Y cynhyrchiad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd neu newydd ei gwblhau.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Chwefror 2020

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# A465 Rhan 2 – Canfyddiadau Interim

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi'r adroddiad hwn o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Roedd tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Jeremy Morgan a Stephen Lisle dan gyfarwyddyd Matthew Mortlock.

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Cynnwys


1. Cefndir 4

2. Ynglŷn â'n gwaith 8

3. Yr achos busnes ar gyfer y prosiect 10

4. Y broses gaffael 12

5. Yr anghydfod ynghylch atebolrwydd am gostau uwch 16

6. Perfformiad y prosiect ar y cyfan a'i fanteision ehangach 25

Atodiadau

Atodiad 1 – Dulliau caffael a ddefnyddiwyd ar gynllun yr A465 yn ei gyfanrwydd 28

Atodiad 2 – Llinell amser digwyddiadau pwysig ar gyfer yr A465 Rhan 2 30

Atodiad 3 – Proses Cymeradwyo Camau Allweddol Llywodraeth Cymru 33

Atodiad 4 – Partion allweddol sy'n rhan o'r A465 Rhan 2 34

# 1. Cefndir

1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn trosi 40 cilometr o ffordd bresennol yr A465 ‘Blaenau’r Cymoedd’ rhwng y Fenni a Hirwaun yn ffordd ddeuol. Mae’r cynllun i wella’r ffordd wedi’i fwriadu i gael effaith sylweddol ar fuddsoddi a gweithgarwch economaidd ar hyd coridor Blaenau’r Cymoedd. Ym 1994[1], cyflwynodd y Swyddfa Gymreig opsiynau o ran llwybrau ar gyfer cynllun yr A465 er mwyn ymgynghori â’r cyhoedd ac, ym 1995, fe wnaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd gyhoeddi’r llwybr a ffefrir. Ym 1998, cynhaliwyd ymgynghoriad lleol cyhoeddus ar y cynllun a arweiniodd at gadarnhau’r llwybr ar gyfer deuoli.

1.2 Yn 2000, i’w gwneud yn bosibl ei gyflawni’n raddol, fe rannodd Llywodraeth Cymru gynllun yr A465 yn chwe rhan (Ffigur 1). Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dulliau caffael gwahanol ar gyfer y rhannau unigol, gan adlewyrchu datblygiadau mewn arferion cyffredin yn y diwydiant dros amser. Mae Atodiad 1 yn egluro’r dulliau hyn.

1 Mae Atodiad 2 yn nodi llinell amser o ddigwyddiadau pwysig mewn perthynas â Rhan 2 yr A465.

Ffigur 1: Chwe rhan cynllun yr A465

**Rhannau 5 a 6: Dowlais Top i Hirwaun (mae'r ddwy ran hon wedi cael eu cyfuno'n un prosiect)**

Yn yr arfaeth: (i fod i gael eu cwblhau yn 2024)

Cost: £428 miliwn (amcangyfrif ar hyn o bryd, prisiau 2016)

Dull caffael: Model Buddsoddi Cydfuddiannol

**Rhan 2: Gilwern i Frynmawr**

Ar y gweill

Cost: i'w phennu, yr amcangyfrif cyfredol yw £321 miliwn


Dull caffael: Ymwneud Cynnar gan Gontractwr

**Rhan 4: Tredegar i Dowlais Top**

Cwblhawyd yn 2004

Cost: £58 miliwn

Dull caffael: Dylunio ac Adeiladu




**Rhan 3: Brynmawr i Dredegar**

Cwblhawyd yn 2015

Cost: £158 miliwn

Dull caffael: Ymwneud Cynnar gan Gontractwr

**Rhan 1: Y Fenni i Gilwern**

Cwblhawyd yn 2008

Cost: £57 miliwn

Dull caffael: Dylunio ac Adeiladu

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

1.3 Yn 2000, roedd Llywodraeth Cymru yn rhagweld y gallai pob un o'r chwe rhan gael eu cwblhau o bosibl erbyn 2009, a hynny am gost amcangyfrifedig o £268 miliwn[2]. Ar adeg adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol blaenorol ym mis Ionawr 2011 ar **Brosiectau Trafnidiaeth Mawr**[3], roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gynllun yr A465 yn ei gyfanrwydd gael ei gwblhau erbyn 2020 a hynny am gost o oddeutu £763 miliwn[4]. Fodd bynnag, mae'r amserlen wedi llithro a bellach mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio ar y sail y bydd y rhaglen yn cael ei chwblhau erbyn 2025. Amcangyfrifir erbyn hyn mai tuag £1 biliwn fydd cyfanswm cost y cynllun cyfan.

1.4 A hithau wedi cwblhau tair rhan o'r A465, yn awr mae Llywodraeth Cymru yn uwchraddio Rhan 2 – tuag wyth cilometr o Gilwern i Frynmawr (y prosiect). Ceir gwybodaeth eang am y prosiect ar wefan Llywodraeth Cymru. Yn 2010, dewisodd Llywodraeth Cymru Ymwneud Cynnar gan Gontractwr (ECI) fel y dull caffael ar gyfer dylunio ac adeiladu'r prosiect hwn. Ar yr adeg honno, roedd Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu Ymwneud Cynnar fel ei dewis ddull ar gyfer prosiectau sy'n costio dros £18 miliwn a dyna fu ei dewis fodel ers hynny[5].

1.5 Mae Ymwneud Cynnar yn ddull sydd wedi'i fwriadu i arwain at fwy o sicrwydd ynghylch costau ac amser trwy gynnwys contractwr adeiladu yn y broses gynnar o ddatblygu prosiect. Mae ymgysylltu'n gynnar â chontractwr adeiladu'n ei gwneud yn bosibl ei gynnwys yn y gwaith dylunio amlinellol cynnar, mewn gwaith cynllunio, gwaith i amcangyfrif y costau a phrosesau statudol megis yr ymchwiliad cyhoeddus. Y nod yn hyn o beth – i'r awdurdod sy'n contractio a'r contractwr – yw sicrhau dealltwriaeth fwy manwl am fanyleb y prosiect a lleihau lefel yr ansicrwydd cyn bod y gwaith dylunio manwl ac adeiladu'n dechrau.

2 Prisiau Tachwedd 2000.

3 Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Prosiectau Trafnidiaeth Mawr**, Ionawr 2011. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar ddeg prosiect trafnidiaeth gan gynnwys rhannau 1 a 4 o'r A465. Roedd yn cynnwys astudiaeth achos fer ar gynllun yr A465 ar y cyfan.

4 Roedd yr adroddiad ar Brosiectau Trafnidiaeth Mawr yn nodi bod y costau cynyddol a'r ffrâm amser estynedig ar gyfer y gwaith arfaethedig i gwblhau'r A465 yn cael effaith ar gynlluniau i ddatblygu prosiectau eraill. Roedd y gost o £763 miliwn yr adroddwyd arni ar y pryd yn cynnwys ffigyrau alldro arian parod ar gyfer rhannau a oedd wedi'u cwblhau'n barod a phrisiau mis Tachwedd 2009 ar gyfer rhannau nad oeddent wedi'u cwblhau eto.

5 Yn dilyn yr adroddiad ym mis Mehefin 2015 ar ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i **Werth am Arian Buddsoddi mewn Priffyrdd a Chefnffyrdd**, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o gymhwyso ECI. Ym mis Medi 2015, fe wnaeth Llywodraeth Cymru hysbysu'r Pwyllgor bod yr adolygiad wedi dod i'r casgliad y gallai contractau gwerth is gael budd o ymgysylltiad cynnar â chontractwyr hefyd. O ganlyniad, roedd canllawiau'n cael eu diwygio fel bod modd ystyried ECI ar gyfer contractau adeiladu yn annibynnol ar eu gwerth.

1.6 O dan y model Ymwneud Cynnar, caiff dau gontract eu caffael trwy broses gaffael sengl (y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn fel y contract Rhan 1 a'r contract Rhan 2). Mae'r contract Rhan 1 yn ymwneud â dyluniad amlinellol a datblygiad cynnar y prosiect a ddisgrifir uchod. Mae Rhan 1 hefyd yn cynnwys datblygu cost darged (gweler paragraff 4.8) ar gyfer dyluniad manwl ac adeiladu'r prosiect dan y contract Rhan 2. Mae gan y naill barti a'r llall yr opsiwn i beidio â chamu ymlaen i'r contract Rhan 2.

1.7 Ym mis Mehefin 2011, fe gadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei bod yn penodi Costain Ltd fel y contractwr Ymwneud Cynnar ar y contract Rhan 1. Ym mis Rhagfyr 2014, cyflwynodd Llywodraeth Cymru 'Rybudd i Fwrw Ymlaen' i Costain mewn perthynas â'r contract Rhan 2. Mae hwn yn un o nifer o brosiectau ffyrdd mawr a gyllidir gan Lywodraeth Cymru i gael eu cyflawni gan Costain dros y 15 mlynedd ddiwethaf, gan gynnwys enghreifftiau o gontractau Ymwneud Cynnar eraill. Roedd Costain hefyd yn aelod o'r fenter ar y cyd y gwnaeth Llywodraeth Cymru gontractio gyda hi i fynd â'r cynlluniau i adeiladu darn newydd o draffordd i'r de o Gasnewydd (Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd) trwy'r broses gydsynio statudol berthnasol. Mewn datganiad a gyhoeddwyd ar 4 Mehefin 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru na fyddai'n bwrw ymlaen â phrosiect Coridor yr M4 oherwydd pryderon cyllidebol ac amgylcheddol.

1.8 Mae Rhan 2 o'r A465 yn dwyn heriau peirianegol ac amgylcheddol sylweddol. Mae'r prosiect yn golygu ehangu wyth cilometr o'r ffordd bresennol, ar safle cyfyngedig iawn, ochr yn ochr â thraffig byw. Mae'r darn o ffordd yn pasio trwy Gwm Clydach, sy'n gwm â llethrau serth ac felly'n lleoliad anodd ar gyfer adeiladu. Mae'r prosiect yn golygu adeiladu strwythurau newydd gan gynnwys saith pont, 12.5 cilometr o waliau cynnal[6], yn ogystal â chloddio dros 1.3 miliwn o fetrau ciwbig o gloddiau, sydd bron yn ddigon i lenwi Stadiwm Principality. Mae'r prosiect hefyd yn amgylcheddol sensitif gan fod y ffordd fynd trwy Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog[7]. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi awgrymu bod yr amgylchiadau hyn yn gwneud y prosiect yn un delfrydol ar gyfer y dull caffael Ymwneud Cynnar.

6 Bydd gan rai hydoedd o'r ffordd waliau bob ochr i'r ffordd a/neu yng nghanol y ffordd.
7 Yn ystod y broses ddylunio cwblhawyd Asesiad o'r Goblygiad ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd i hysbysu Gweinidogion ynghylch y potensial ar gyfer effeithiau niweidiol y prosiect ar Ardal Gadwraeth Arbennig (AGA) Safleoedd Ystlumod Brynbuga, AGA Coetir Cwm Clydach ac AGA Afon Wysg.

# 2. Ynglŷn â'n gwaith

2.1 Dechreuodd y gwaith adeiladu ar gyfer Rhan 2 ym mis Rhagfyr 2014 pan oedd cyfanswm rhagamcanol cost y prosiect yn £223.2 miliwn[8] a Medi 2018 wedi'i nodi fel dyddiad cwblhau arfaethedig y contract. Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith ddatganiad ysgrifenedig, yn dilyn adolygiad masnachol o'r prosiect gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Roedd yr adolygiad yn rhagfynegi, ar y pryd, y byddai Rhan 2 yn cael ei chyflawni am 23% yn fwy na'r gyllideb a gymeradwywyd. Roedd y datganiad yn dynodi fel a ganlyn: 'Mae topograffeg y safle, y gofynion rheoli traffig ac amodau cymhleth y tir wedi golygu bod Costain wedi cael bod y prosiect yn llawer anos i'w gyflawni nag a ragwelwyd ganddynt yn wreiddiol'. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru mewn anghydfod gyda Costain ynglŷn â 'nifer o faterion mewn perthynas â dyrannu risg yn y contract i sicrhau mai dim ond yr hyn y mae ganddynt hawl gytundebol iddo sy'n cael ei dalu iddynt'.

2.2 Ym mis Tachwedd 2017, fe gyhoeddodd y Ceidwadwyr Cymreig ddatganiad i'r wasg, yn erfyn ar yr Archwilydd Cyffredinol i ymchwilio i'r prosiect. Fe ysgrifennodd Mr Russell George AC, sydd hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, at yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Rhagfyr 2017 i ofyn am adolygiad o'r modd yr oedd Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'r cynllun hwn.

2.3 Mewn llythyr at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 4 Mai 2018, cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol ar y pryd ei fod, yn dilyn rhai ymholiadau archwilio rhagarweiniol, wedi penderfynu y byddai'n werth gwneud peth gwaith archwilio pellach a hwnnw'n arwain at baratoi adroddiad/memorandwm ar hanes y prosiect. Cadarnhaodd hefyd y byddai'r gwaith archwilio'n ystyried y gwaith a oedd yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i ddatrys y materion a oedd yn destun anghydfod.

2.4 Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth gynnydd pellach yng nghost amcangyfrifedig y prosiect i bwrs y wlad. Cynyddodd y gyllideb ddiwygiedig £54.9 miliwn, i £336.2 miliwn. Roedd datganiad y Gweinidog yn dynodi 'bod oedi o ran y prosiect a bod y costau wedi cynyddu yn sgil yr anawsterau sy'n bodoli ar y safle. Mae Costain wedi nodi mai'r prif reswm am hyn yw'r angen am ateb adeiladu cymhleth ar gyfer mynd i'r afael â nodwedd ddaearegol y maent wedi'i darganfod mewn un lleoliad penodol'.

8 Prisiau 2014.

2.5 Roedd y datganiad yn estyn y dyddiad ar gyfer cwblhau'n llawn hyd 2020, ond mae'r union ddyddiad cwblhau yn dal yn ansicr ac mae disgwyl bellach i'r prosiect ymestyn i mewn i 2021 (paragraff 5.8). Roedd y datganiad hefyd yn cydnabod bod y broses o ddatrys yr anghydfod wedi tynnu sylw at nifer o feysydd i'w gwella o fewn contract enghreifftiol Llywodraeth Cymru, a hefyd o fewn cyfres o ddogfennau Contract Peirianneg Newydd Sefydliad y Peirianwyr Sifil a ddefnyddiwyd fel templedi yn y prosiect. Roedd y datganiad yn nodi y byddai proses gwersi a ddysgwyd yn bwydo yn ôl i mewn i brosesau caffael yn y presennol a'r dyfodol.

2.6 Er bod y broses o ddatrys anghydfod yn parhau rhwng Llywodraeth Cymru a Costain, rydym wedi paratoi'r adroddiad hwn i nodi, mewn termau ffeithiol, ganfyddiadau interim o'n gwaith. Wrth wneud ein gwaith hyd yma, rydym wedi:

a adolygu dogfennau allweddol, cofnodion cyfarfodydd, data ar gostau a sylwadau Gweinidogol mewn perthynas â chaffael y contractwr Ymwneud Cynnar a datblygu a chyflawni'r prosiect;

b ymweld â safleoedd i gael dealltwriaeth am gymhlethdod y prosiect; ac

c cwrdd â Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Costain ac Asiant y Cyflogwr, Arcadis[9].

2.7 Mae gan y prosiect hanes hir fel rhan o'r cynllun ehangach, ond rydym wedi canolbwyntio ein sylw ni ar y cyfnod ers dechrau caffael y contractwr Ymwneud Cynnar. Nid ydym wedi bwrw golwg ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â chaffael contractwyr eraill ac isgontractwyr na rheoli'r contractau hynny[10]. Rydym yn disgwyl llunio adroddiad pellach ar y prosiect a'r gwersi y gellir eu dysgu ohono unwaith y byd y broses o ddatrys yr anghydfod wedi'i chwblhau ac y bydd mwy o sicrwydd ynghylch y gost derfynol i bwrs y wlad.

9 Mae Asiant y Cyflogwr yn nodweddiadol yn ymgynghoriaeth yn y sector preifat sy'n gweithredu ar ran y cleient/cyflogwr yn y sector cyhoeddus i oruchwylio'r broses o weinyddu contract Ymwneud Cynnar. Dyfarnodd Llywodraeth Cymru y contract Asiant Cyflogwr i EC Harris. Unodd EC Harris ag Arcadis NV ym mis Tachwedd 2011. Ar ôl yr uno, daeth y sefydliad i gael ei adnabod fel Arcadis a chyfeirir ato felly mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn.

10 Mae Atodiad 4 yn nodi'r partïon allweddol sy'n gysylltiedig â'r prosiect, er bod Costain wedi isgontractio gydag ystod ehangach o gwmnïau yn ei gadwyn gyflenwi.

# 3. Yr achos busnes ar gyfer y prosiect

3.1 Yn unol â'i gweithdrefnau mewnol, fe symudodd y prosiect hwn ymlaen trwy broses achos busnes Llywodraeth Cymru. Mae'r broses hon yn dilyn model pum achos, sy'n nodi'r achos strategol, economaidd, masnachol, ariannol a rheoli i ategu datblygiad y prosiect. Fe ddilynodd y prosiect Broses Cymeradwyo Camau Allweddol Is-adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru hefyd (Atodiad 3).

3.2 Roedd yr achos busnes yn nodi tri amcan trosfwaol:

- a cryfhau cydnerthedd ar yr A465 rhwng Brynmawr a Gilwern trwy wella safonau a gwella diogelwch ar y ffyrdd;
- b cyfrannu at waith tebyg i uwchraddio'r llwybr cyfan i ddarparu cyfleusterau ar gyfer rheoli traffig yn strategol yn Ne Ddwyrain Cymru; ac
- c hwyluso adfywio economaidd yn ardal Blaenau'r Cymoedd trwy wella hygyrchedd, lleihau amser siwrneiau a gwella dibynadwyedd amser siwrneiau rhwng Brynmawr a Gilwern o leiaf 5% erbyn 2030.

3.3 Cafodd y tri amcan trosfwaol eu rhannu'n amcanion prosiect-benodol:

- a lleihau amseroedd siwrneiau ar gyfer defnyddwyr preifat a masnachol y ffyrdd;
- b hwyluso adfywio economaidd;
- c gwella diogelwch ar y ffyrdd a lleihau nifer yr anafusion;
- ch cyflawni prosiect sy'n gynaliadwy;
- d hybu cerdded a beicio a darparu cyfleoedd ar gyfer ffyrdd iach o fyw;
- dd cyflawni prosiect sy'n lleihau i'r eithaf y gofynion cynnal a chadw a'r achosion o darfu ar y rhwydwaith yn y dyfodol;
- e lleihau amrywioldeb amseroedd siwrneiau a gwella cydnerthedd ar yr A465;
- f defnyddio'r A465 i reoli traffig yn effeithiol a gwella cydnerthedd ar y rhwydwaith ffyrdd strategol yn Ne Ddwyrain Cymru;
- ff sicrhau y cyflawnir yr holl amcanion hyn gan roi ystyriaeth ddyledus i'r effaith ar yr amgylchedd; a
- g chyflawni prosiect sy'n integreiddio cludiant cyhoeddus a'r rhwydwaith trafnidiaeth lleol.

3.4 Fel rhan o'r achos busnes, cyflawnodd Llywodraeth Cymru asesiad economaidd gan ddefnyddio offeryn asesu Adran Drafnidiaeth y DU, sef TUBA[11]. Rhoddodd yr asesiad gymhareb cost a budd o 1.46 (Blwch 1). Mae'r Adran Drafnidiaeth yn ystyried bod cymhareb cost a budd rhwng 1 ac 1.5 yn 'werth isel am arian'[12]. Fodd bynnag, pan gynhwysodd Llywodraeth Cymru fanteision economaidd ehangach yn ei chyfrifiadau, fe gosodd y gymhareb cost a budd i 1.65, y mae'r Adran Drafnidiaeth yn ei diffinio'n 'werth canolig am arian'. Roedd yr achos busnes yn disgrifio manteision eraill a fyddai'n deillio o'r prosiect na chawsant eu hystyried yn y gymhareb cost a budd ond sy'n cyfrannu at werth yr achos ariannol ar y cyfan, megis cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant a mynediad at aneddiadau a gwasanaethau allweddol.

**Blwch 1: Cymhareb cost a budd**

Mae'r gymhareb cost a budd yn rhan bwysig o'r broses benderfynu ynglŷn â bwrw ymlaen â phrosiect arfaethedig neu beidio.

Mae'r gymhareb cost a budd yn darparu asesiad o fanteision economaidd lleol prosiect ac mae'n rhan o ystyriaeth ehangach i werth am arian.

Roedd y gymhareb cost a budd a gyfrifwyd ar gyfer Rhan 2 o'r A465 yn canolbwyntio ar ddiogelwch gwell a dibynadwyedd gwell siwrneiau. Nid oedd yn cynnwys manteision cymdeithasol megis mynediad gwell at wasanaethau cyhoeddus, darpariaeth well ar gyfer teithio llesol a chysylltiadau gwell rhwng cymunedau. Hefyd, nid oedd yn cynnwys ystyried manteision amgylcheddol, megis gostyngiadau mewn lefelau llygredd neu greu cynefinoedd.

Gellir cyfrifo 'cymhareb cost a budd ehangach' trwy gynnwys manteision economaidd ehangach, megis mynediad rhwyddach at swyddi a marchnadoedd.

11 Meddalwedd a ddatblygwyd ar gyfer yr Adran Drafnidiaeth i gynnal arfarniadau economaidd ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth yw TUBA. Mae'n defnyddio gwybodaeth am siwrneiau, pellterau ac amseroedd teithio i gyfrifo manteision economaidd cynlluniau arfaethedig.

12 Yr Adran Drafnidiaeth, **Value for Money Assessment: Advice Note for Local Transport Decision Makers**, Rhagfyr 2013.

# 4. Y broses gaffael

4.1 Cyn y broses gaffael i ddethol y contractwr Ymwneud Cynnar, fe gynhaliodd Llywodraeth Cymru broses gaffael ar wahân i ddethol Asiant y Cyflogwr. Fe arweiniodd hyn at ddethol Arcadis, fel y'i hadwaenir bellach, fel Asiant y Cyflogwr ar gyfer y prosiect ym mis Mawrth 2009.

4.2 Dechreuodd y broses gaffael ar gyfer y contractwr Ymwneud Cynnar ym mis Mawrth 2010 pan gyhoeddwyd Hysbysiad Contract OJEU. Fe adolygom ni'r broses gaffael ar gyfer y contractwr Ymwneud Cynnar a chanfuom fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal y broses gaffael yn unol â'i pholisïau a'i gweithdrefnau arferol ar gyfer prosiectau ffyrdd mawr.

4.3 Cafodd Llywodraeth Cymru naw datganiad o ddiddordeb ar gyfer dylunio ac adeiladu'r prosiect, gyda Costain yn cyflawni'r sgôr uchaf ar y cyfan yn yr asesiad cychwynnol hwnnw. Wedyn gwahoddwyd y pum ymgeisydd â'r sgoriau uchaf i dendro am y contract ac fe gyflwynodd pob un o'r pum gynnig.

4.4 Fe werthusodd Llywodraeth Cymru y tendrau yn seiliedig ar 70% o'r marciau'n cael eu dyfarnu am ansawdd a 30% am y pris (Ffigur 2). Bwriad Llywodraeth Cymru oedd y byddai'r dull hwn yn osgoi sefyllfa lle gallai ffocws ar bris fod wedi rhoi anogaeth i gyflwyno cynigion isel ac, o bosibl, afrealistig, gyda'r risg y byddai costau'n cynyddu wrth i'r gwaith adeiladu fynd rhagddo.

Ffigur 2: Gwerthusiad Llywodraeth Cymru o dendrau ar gyfer contract Ymwneud Cynnar Rhan 2 yr A465

Mae'r ffigur isod yn dangos sut yr oedd marciau Costain yn cymharu â'r amrediad o farciau a gafwyd gan y pedwar cynigydd arall am y contract Ymwneud Cynnar.

| | **Cynnig ariannol, heb gynnwys TAW** (£ miliwn) | **Marc ariannol** (allan o 30) | **Marc ansawdd** (allan o 70) | **Marc ar y cyfan** (allan o 100) |
|---|---|---|---|---|
| Costain | 102.0 | 28 | 56 | **84** |
| Amrediad | 94.4-129.1 | 25-30 | 44-56 | **72-84** |

Sylwer: Roedd yr agwedd ariannol ar y cynnig yn ystyried costau dylunio, ffioedd contractwyr, ffioedd isgontractwyr a chost darged amcangyfrifedig (y cyfeirir ati'n fewnol yn Llywodraeth Cymru ac yn y dogfennau tendro fel y 'gost darged gychwynnol') ar gyfer cam contract dylunio manwl ac adeiladu'r prosiect.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

4.5 Roedd 12 o farciau rhwng y marciau uchaf ac isaf ar y cyfan. Roedd mwy o wahaniaeth rhwng y cynigion ariannol, a oedd yn amrywio o £94.4 miliwn i £129.1 miliwn heb gynnwys TAW[13].

4.6 Er nad Costain gyflawnodd y marc uchaf yn y gwerthusiad ariannol gan nad ef gynigiodd y pris isaf, roedd ei farc yn y gwerthusiad ansawdd yn golygu mai ef gafodd y marc uchaf ar y cyfan.

13 Fe wnaeth y cynnig o £94.4 miliwn godi pryderon Llywodraeth Cymru ei fod yn 'anarferol o isel' fel a nodir yn Rhan 5 Cymal 30(6) o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2006. Fodd bynnag, barn Llywodraeth Cymru oedd nad oedd angen cael eglurhad o'r cynnig am nad y cynigydd buddugol a'i cyflwynodd.

4.7 Yn ei rôl fel Asiant y Cyflogwr, fe gwblhaodd Arcadis asesiad ariannol rheolaidd o'r ceisiadau tendro. Daeth yr asesiad i'r casgliad canlynol:

a nid oedd tystiolaeth o gydgynllwynio rhwng cynigwyr;

b nid oedd unrhyw bryderon ynghylch lefel yr elfen ffioedd yn unrhyw un o'r cynigion;

c roedd yr holl amcangyfrifon o fewn y gost adeiladu o £149.7 miliwn a oedd yn cael ei hamcangyfrif ar y pryd; ac

ch nid oedd unrhyw faterion o bwys yn unrhyw un o'r cynigion yr oedd angen eu hegluro.

4.8 Fe benododd Llywodraeth Cymru Costain fel y contractwr Ymwneud Cynnar ar gyfer y contract Rhan 1 ym mis Mehefin 2011. Fel a nodir ym mharagraff 1.6, un o nodau allweddol y contract Rhan 1 oedd datblygu 'cost darged' (Blwch 2) ar gyfer dyluniad manwl ac adeiladu'r prosiect dan y contract Rhan 2. Datblygwyd y 'gost darged' gytunedig o'r 'gost darged gychwynnol' a gyflwynwyd yn y cam tendro i ystyried newidiadau o ran datblygu'r dyluniad a oedd yn gyfystyr â digwyddiadau gwerthuso[14].

14 Nid yw pob newid yn gyfystyr â digwyddiad gwerthuso. Dim ond y canlynol sydd wedi'u nodi fel digwyddiadau gwerthuso dilys ym model safonol Llywodraeth Cymru: mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfarwyddyd sy'n newid tybiaeth yn nhybiaethau cyllidebol y cynllun; mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfarwyddyd sy'n newid yr Wybodaeth am y Gwaith, sef y fanyleb ar gyfer cyflawni'r gwaith; mae Llywodraeth Cymru yn hysbysu ynghylch cywiriad i dybiaeth; neu fe geir digwyddiad y nodwyd ei fod yn un o risgiau Llywodraeth Cymru dan y contract.

**Blwch 2: Contractau cost darged**

Mae contractau cost darged yn cyflwyno mecanwaith sy'n galluogi'r cyflogwr a'r contractwr i rannu manteision unrhyw arbedion o ran costau ac, i'r gwrthwyneb, anfanteision unrhyw gostau sydd y tu hwnt i'r gyllideb a amcangyfrifwyd. 'Rhannu'r elw' a 'rhannu'r boen' yw'r enwau ar y rhain fel arfer. Mae unrhyw arbedion o ran costau (elw) neu gostau y tu hwnt i'r gyllideb (poen) yn cael eu rhannu yn seiliedig ar fformiwla y cytunwyd arni'n gytundebol. Mae ffigwr 'cost darged' y contract Rhan 2 fel arfer yn seiliedig ar restr weithgareddau gytunedig o waith neu wasanaethau, neu restr feintiau. Y bwriad ar y cyfan yw annog yr holl bartïon i gydweithio i gyflawni arbedion a lliniaru unrhyw gostau sydd y tu hwnt i'r gyllideb.

Yn ddelfrydol byddai'r gost darged yn aros yr un fath trwy gydol oed y gwaith neu wasanaethau a nodir yn y contract. Fodd bynnag, ceir ffactorau sy'n achosi i'r gost darged gynyddu. Ymhlith enghreifftiau allweddol mae cynnwys cwmpas ychwanegol neu amrywiol o'i gymharu â'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol, ac os yw risgiau penodol yn dod yn ffaith eu bod yn cael eu hysgwyddo gan y cleient/cyflogwr.

Mae'r newidiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith fel arfer (a'r targed felly'n cael ei newid) trwy'r darpariaethau rheoli newid/amrywio yn y contract. Nod y contract cost darged yw sicrhau cydweithio da a darparu cymhelliad ariannol sy'n rhoi anogaeth i reoli costau, yn hytrach na chosbi.

4.9 Ar ddiwedd cam dyluniad amlinellol a chyn dyfarnu cam dylunio manwl ac adeiladu'r prosiect dan y contract Rhan 2, roedd gan Lywodraeth Cymru yr opsiwn – heb gosb – i gaffael contractwr gwahanol. Fel arall, gallai Llywodraeth Cymru fod wedi terfynu'r prosiect. Yn yr un modd, roedd gan Costain y cyfle i wrthod symud ymlaen i ymrwymo i'r contract Rhan 2 heb gosb, am unrhyw reswm. Fodd bynnag, ni chanfu Llywodraeth Cymru na Costain unrhyw reswm dros beidio ag ymrwymo i'r contract adeiladu.

4.10 Yn ystod y broses o baratoi'r adroddiad hwn, mae Costain wedi gwneud sylwadau ynghylch materion a ddigwyddodd yn ystod y contract Rhan 1 sydd, yn ei dyb ef, wedi cael effaith ar faint y gwaith dylunio amlinellol a wnaed ac ar adnabod ac ystyried y risgiau technegol a masnachol sydd wedi dod i'r amlwg ac wedi cael eu gwireddu ers hynny. Mae gan Lywodraeth Cymru farn wahanol am y materion a godwyd a'u hamgylchiadau. Fe allai'r materion hyn fod yn berthnasol i'r broses o ddatrys anghydfod sydd wrthi'n mynd rhagddi. Felly nid ydym wedi ceisio ffurfio ein barn ni ein hunain ynglŷn â hwy ar y cam hwn, nac ymhelaethu arnynt yn yr adroddiad hwn. Fel a nodir uchod, ni chanfu Llywodraeth Cymru na Costain unrhyw reswm dros beidio ag ymrwymo i'r contract adeiladu.

# 5. Yr anghydfod ynghylch atebolrwydd am gostau uwch

5.1 Erbyn mis Rhagfyr 2014, pan gytunodd y Gweinidog i ddyfarnu’r contract dylunio manwl ac adeiladu Rhan 2 i Costain, roedd y ‘gost darged’ y cytunwyd arni wedi codi i £159.5 miliwn gan gynnwys TAW na ellir ei hadennill (£151.9 miliwn heb gynnwys TAW). Deilliodd y cynnydd hwn o amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys effaith chwyddiant adeiladu, newidiadau o ganlyniad i’r ymchwiliad cyhoeddus a’r angen am rai newidiadau sylfaenol i gydymffurfio â gofynion dan yr ‘Asesiad o Oblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd’ a chyfraith cynllunio. Yn dilyn argymhelliad yr Arolygydd yn yr ymchwiliad lleol cyhoeddus, cafodd rhai eitemau ychwanegol o waith eu cynnwys. Roedd y rhain yn cynnwys cyffordd ychwanegol a phompren ychwanegol ar hyd y llwybr.

5.2 Ar yr un adeg, amcangyfrifwyd fod cyfanswm cost y prosiect, gan gynnwys yr holl newidiadau, chwyddiant, ymrwymiadau a oedd yn gysylltiedig â’r ymchwiliad a TAW, yn £223.2 miliwn.

5.3 Erbyn dechrau 2017, roedd costau adeiladu cynyddol yn peri cryn bryder i Lywodraeth Cymru. Ym mis Ebrill 2017, awgrymodd Llywodraeth Cymru wrth Costain y dylid defnyddio dyfarnwr[15] i ddatrys anghydfodau rhwng Llywodraeth Cymru a Costain ynglŷn â phwy oedd yn atebol am godiadau penodol mewn costau dan y contract. Gwrthododd Costain y cais hwn. Ym mis Mehefin 2017, fe ysgrifennodd Llywodraeth Cymru yn ffurfiol at Costain i ofyn iddo ailystyried y cais am ddyfarniad. Roedd yn dal i fod yn well gan Costain ddatrys unrhyw anghydfod trwy drafod a chytuno.

5.4 Ym mis Tachwedd 2017, roedd datganiad ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith, yn dilyn adolygiad masnachol o’r prosiect, yn dweud y ‘rhagwelir y bydd y prosiect ar hyn o bryd 23% dros y gyllideb a gymeradwywyd’. Ym mis Ionawr 2018, cyfrifodd Llywodraeth Cymru ei bod yn debygol y byddai’r costau 26% yn uwch na’r gyllideb. Felly fe gytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i gynyddu’r gyllideb o £58 miliwn i £281 miliwn.

15 Dyfarnu yw cam cyntaf y weithdrefn datrys anghydfod yn y contract NEC, sydd fel arfer yn golygu penderfyniad unochrog gan un parti i atgyfeirio anghydfod at ddyfarnwr ar gyfer penderfyniad. Darperir y broses ddyfarnu gan ddyfarnwr trydydd parti a gaiff ei ddethol gan y partïon sydd mewn anghydfod â’i gilydd, neu yn unol â’r telerau y cytunwyd arnynt ar gyfer y contract. Mae penderfyniadau dyfarnu’n rhwymo oni bai eu bod a hyd oni chânt eu hadolygu gan broses gymrodeddu (neu ymgyfreithiad).

5.5 Hefyd ym mis Ionawr 2018, a heb bod unrhyw gynnydd wedi'i wneud o ran datrys y materion yr oedd anghydfod yn eu cylch, fe benderfynodd Llywodraeth Cymru ganlyn arni â thri mater ar wahân trwy'r broses datrys anghydfod a nodir yn y contract, trwy broses ddyfarnu i ddechrau. Fe symudodd Llywodraeth Cymru ymlaen at broses ddyfarnu heb gytundeb Costain, fel yr oedd hawl ganddi i'w wneud dan y contract. Wedyn ym mis Gorffennaf 2018, fe ddechreuodd Costain ei broses ddyfarnu benodol ei hun. Ym mis Ionawr 2019, fe ddechreuodd Llywodraeth Cymru broses ddyfarnu arall yn erbyn Costain. Ym mis Gorffennaf 2019, fe ddechreuodd Costain broses ddyfarnu yn erbyn Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwaith ar gyflenwadau cyfleustodau. Mae Ffigur 3 yn disgrifio'r materion a oedd yn ganolog i'r anghydfod. Fodd bynnag, yn ymarferol mae'r rhain yn faterion cytundebol cymhleth ac nid ydynt yn hawdd i'w crynhoi.

Ffigur 3: Materion sydd wedi bod yn ganolog i'r anghydfod rhwng Llywodraeth Cymru a Costain, yn ôl y sefyllfa ym mis Ionawr 2020

| | |
|---|---|
| **Anacomp** | Roedd y prosiect yn golygu bod angen cloddio o fewn safle ffatri Anacomp gynt ym Mrynmawr, a ddymchwelwyd yn 2008. Pan ddechreuodd Costain weithio ar y safle yn gynnar yn 2015, canfu asbestos. Fe hawliodd Costain ddigwyddiad iawndal[16] dan y contract i gynyddu'r pris targed ac estyn y dyddiad cwblhau mewn perthynas â'r mater hwn.<br><br>Fe ddechreuodd Llywodraeth Cymru y broses ddyfarnu ynglŷn ag Anacomp a chanfu'r dyfarnwr o blaid Costain. |
| **Caeau Ben Ward** | Trwy gytundeb preifat, fe wnaeth Costain gaffael hen safle glo brig i'r de o'r A465 a adwaenir fel Caeau Ben Ward. Y safle pwysig hwn yw'r lleoliad yr eir â symiau mawr o bridd a cherrig iddo o'r safle adeiladu i'w gwaredu neu, lle y bo'n bosibl, eu prosesu cyn eu hailddefnyddio ar y prosiect. Roedd Costain wedi cyflwyno hysbysiad rhagofalus o ddigwyddiad iawndal dan y contract mewn perthynas â'r mater hwn.<br><br>Fe ddechreuodd Llywodraeth Cymru y broses ddyfarnu ynglŷn â Chaeau Ben Ward, na wnaeth Costain ei hamddiffyn. O dan yr amgylchiadau, fe benderfynodd y dyfarnwr o blaid Llywodraeth Cymru. |

16 Digwyddiadau a ddiffinnir yn y contract dyluniad manwl ac adeiladu Rhan 2 yw digwyddiadau iawndal sydd, os ydynt yn digwydd a hynny nid am bod y contractwr ar fai, yn rhoi hawl i'r contractwr gael iawndal am unrhyw effaith y mae'r digwyddiad yn ei chael ar y prisiau a llinell amser y prosiect.

| | |
|---|---|
| **Waliau cynnal** | Mae'r prosiect yn cynnwys adeiladu 89 o waliau cynnal. Ar gyfer nifer fawr o'r waliau hyn, mae Costain wedi dod ar draws amryw faterion sydd naill ai'n goleuo'r dyluniad a/neu effaith yn ystod y gwaith adeiladu (gan gynnwys amodau tir a thopograffeg anos na'r disgwyl). O ganlyniad, mae Costain o'r farn bod elfennau o'r dyluniad a ddatblygwyd gan Costain yn y contract Rhan 1 ac sydd wedi'i gynnwys yn yr Wybodaeth am y Gwaith yn y contract Rhan 2 yn amhosibl a/neu'n anghyfreithlon i'w hadeiladu yn unol â safonau/rheoliadau perthnasol neu maent wedi cael eu newid am resymau eraill. Mae'r dyluniadau sydd wedi'u newid yn costio symiau sylweddol fwy i'w hadeiladu. Mae'r materion yn gymhleth ac mae Llywodraeth Cymru a Costain wedi mabwysiadu safbwyntiau gwahanol ynglŷn â'r hyn a achosodd y cynnydd yn y gost. Fodd bynnag, yr hyn sy'n allweddol i safbwynt y naill barti a'r llall yw'r dyraniad risg dan y contract Rhan 2.<br><br>Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn prosesau dyfarnu mewn perthynas â dwy wal gynnal. Mae Costain wedi cychwyn proses ddyfarnu ynghylch wal gynnal arall. Mae'r penderfyniadau dyfarnu wedi rhoi peth eglurder o ran sut y dylid dehongli'r contract. Fodd bynnag, mae anghydfod o hyd ynghylch yr egwyddor gytundebol a chost newidiadau i'r dyluniad ac effeithiau'r rhain ar y rhaglen.<br><br>Fe gychwynnodd Llywodraeth Cymru achos cymrodeddu'n ddiweddar (paragraff 5.7) fel y broses datrys anghydfod derfynol a nodir yn y contract, a oedd yn gysylltiedig â phwynt dyfarnu mewn perthynas â wal gynnal, yr oedd ei ganlyniad blaenorol yn un o blaid Costain.<br><br>Mae canlyniad y broses gymrodeddu wedi rhannu cyfrifoldeb am yr Wybodaeth am y Gwaith rhwng Llywodraeth Cymru a Costain, ac mae'n gyfystyr â gwrthdroi'r penderfyniad dyfarnu cynharach yn rhannol. |
| **Gwaith ymgymerwr statudol (cyflenwadau cyfleustodau)** | Roedd Costain yn honni bod cwmpas a hyd gwyriadau ymgymerwr statudol wedi newid a bod hyn wedi arwain at oedi cysylltiedig arall a chostau ychwanegol eraill. Cychwynnodd Costain broses ddyfarnu yn erbyn Llywodraeth Cymru. Fe benderfynodd y dyfarnwr o blaid Llywodraeth Cymru. |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

5.6 Mae penderfyniadau dyfarnu'n rhwymo. Fodd bynnag, os bydd y naill barti neu'r llall yn anfodlon ar benderfyniad dyfarnu, ceir opsiwn i atgyfeirio'r anghydfod at broses gymrodeddu fel y broses datrys anghydfod olaf a nodir yn y contract. Mae'r broses gymrodeddu'n nodweddiadol yn ddwys a maith, oni bai bod y partïon yn cytuno fel arall.

5.7 Er gwaethaf y penderfyniadau dyfarnu a wnaed hyd yma, mae Llywodraeth Cymru a Costain yn dal i fod mewn anghydfod ynglŷn â phwy sy'n atebol am gyfran sylweddol o'r codiadau mewn costau. Ym mis Mehefin 2019, fe gychwynnodd Llywodraeth Cymru achos cymrodeddu yn erbyn Costain ar fater a benderfynwyd o blaid Costain mewn proses ddyfarnu. Mae canlyniad y broses gymrodeddu, a gafwyd yn gynnar ym mis Rhagfyr, wedi rhannu cyfrifoldeb am yr Wybodaeth am y Gwaith rhwng Llywodraeth Cymru a Costain, ac mae'n gyfystyr â gwrthdroi'r penderfyniad dyfarnu cynharach yn rhannol. Nid yw'r union gostau mewn perthynas â'r materion y ceir anghydfod yn eu cylch wedi cael eu pennu'n llawn eto. Mae'n amhosibl dweud faint fydd yn ei gymryd i ddatrys y broses datrys anghydfod gyfrinachol. Mae'n debygol y bydd costau cyfreithiol ychwanegol sylweddol yn codi o'r broses datrys anghydfod, gyda'r naill barti a'r llall yn prynu gwasanaeth bargyfreithwyr ac arbenigwyr technegol. O ran y sefyllfa ym mis Tachwedd 2019, roedd cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer ffioedd cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r prosiect yn £2.07 miliwn ac roedd y swm a oedd wedi cael ei wario ar ffioedd cyfreithiol yn £1.49 miliwn.

5.8 Mae'r materion sy'n ganolog i'r anghydfod wedi cyfrannu at oedi sylweddol gyda'r prosiect. Ar ddechrau'r gwaith adeiladu, amcangyfrifwyd mai dyddiad cwblhau'r contract oedd mis Medi 2018. Ym mis Ebrill 2019, cadarnhaodd datganiad y Gweinidog y byddai'r dyddiad cwblhau yn ymestyn hyd at 2020 (paragraff 2.5), ond gyda hanner dwyreiniol y cynllun yn cael ei gwblhau tuag at ddiwedd 2019 (er nad yw'r contract Rhan 2 yn rhagweld y bydd y prosiect yn cael ei gwblhau ar adegau gwahanol). Yn sgîl y materion cytundebol parhaus, fe wnaeth Costain ail-flaenoriaethu'r gweithgareddau a oedd fwyaf hanfodol i gyflawni rhaglen y prosiect ar y cyfan (o fewn y ceunant). Mae'r ail-flaenoriaethu hwn yn golygu nad yw hanner dwyreiniol y cynllun wedi cael ei gwblhau erbyn diwedd 2019 yn unol â'r amserlen. Mae'r union ddyddiad cwblhau ar gyfer y cynllun ar y cyfan yn dal i fod yn ansicr ond bellach mae disgwyl iddo ymestyn i wanwyn 2021, er bod y ddau barti'n ystyried a ellir ei gwblhau yn 2020 ynghyd ag opsiynau i gwblhau'r rhan ddwyreiniol cyn y dyddiad terfyn.

5.9 Gydag ansicrwydd parhaus ynghylch atebolrwydd am y codiadau mewn costau a maint y codiadau hynny, mae'n anodd i Lywodraeth Cymru ragfynegi'r gost derfynol i bwrs y wlad. Gyda dyddiad cwblhau arfaethedig y prosiect wedi'i estyn, gall fod cynnydd pellach mewn costau hefyd. Hyd yn oed pan fydd yr anghydfod wedi'i ddatrys ac os caiff y gost darged ei haddasu'n unol â hynny, byddai unrhyw gynnydd pellach mewn costau o fewn y prosiect yn cynyddu'r costau i bwrs y wlad trwy'r mecanwaith elw-poen (Blwch 2).

5.10 Fel a ddangosir yn Ffigur 4, mae rhagolwg Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2019 ar gyfer cyfanswm cost y prosiect i bwrs y wlad yn £321.1 miliwn. Mae'r amcangyfrif o gyfanswm cost y prosiect, gan gynnwys tybiaethau Llywodraeth Cymru ynghylch cyfran Costain o'r boen, yn sylweddol uwch. Rydym wedi golygu'r ffigwr uwch hwnnw o'r adroddiad ar sail sensitifrwydd masnachol. Pan fo Llywodraeth Cymru wedi adrodd yn flaenorol ar gostau'r prosiect, mae wedi gwneud hynny'n seiliedig ar y costau amcangyfrifedig i bwrs y wlad. Nid yw'r costau a ddangosir yn Ffigur 4 yn cynnwys asesiad o effeithiau'r canlyniad cymrodeddu diweddar ar gostau sydd, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, yn dal i gael ei asesu'n llawn gan Lywodraeth Cymru a Costain. Barn Costain yw bod yr amcangyfrifon diweddaraf o rwymedigaethau Llywodraeth Cymru wedi'u tanddatgan. Barn Llywodraeth Cymru yw bod y ffigyrau'n cynrychioli lwfans rhesymol ar gyfer ei rhwymedigaethau yn seiliedig ar y penderfyniadau dyfarnu hyd yma.

5.11 Mae'r ffigwr o £321.1 miliwn £127.4 miliwn (66%) yn fwy nag ym mis Mehefin 2011, ar adeg dyfarnu'r contract Rhan 1. Mae £97.9 miliwn (44%) yn fwy nag ym mis Rhagfyr 2014, ar adeg dyfarnu'r contract Rhan 2. Fodd bynnag, mae'n llai na'r £336.2 miliwn a amcangyfrifwyd ar adeg datganiad y Gweinidog ym mis Ebrill 2019.

5.12 Dengys Ffigur 4 fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn atebolrwydd ar hyn o bryd am gostau penodol fel ei chyfran hi o'r cynnydd mewn cost rhwng y gost darged ac amcangyfrif Costain o'u costau alldro terfynol i gwblhau'r cynllun. Cyfeirir at hyn fel cyfran Llywodraeth Cymru o'r 'boen'. Mae rhagolwg cyfredol Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys swm i dalu am rwymedigaethau disgwyliedig ar gyfer dyfarniadau y penderfynwyd arnynt hyd yma o blaid Costain. Ar y cyfan, mae'r ddwy elfen hon yn £80.5 miliwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn atebolrwydd am £16.7 miliwn arall o gostau uwch, sy'n ymwneud â gweithgareddau yr ystyrir eu bod y tu allan i gwmpas gwreiddiol contract Costain ac yn perthyn i'r dosbarth digwyddiadau iawndal. Mae'r materion hynny'n cynnwys addasiadau pellach i'r dyluniad a mesurau lliniaru amgylcheddol.

5.13 Dengys Ffigur 4 hefyd y bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo costau ymgymerwr statudol uwch nag a ragwelwyd. Y prif resymau dros hyn fu materion sy'n ymwneud â chyfres gymhleth o ddargyfeiriadau prif bibellau dŵr a nwy pwysedd uchel gan arwain at daliadau ychwanegol i bob ymgymerwr statudol. Fodd bynnag, gostyngodd y costau hyn rhwng Ionawr 2018 ac Ebrill 2019. Mae rhai dargyfeiriadau wedi costio llai i'w hadeiladu nag a feddyliwyd yn wreiddiol, nid yw rhai dargyfeiriadau arfaethedig yn angenrheidiol mwyach, ac mae peth o'r gwaith wedi cael ei wneud gan Costain yn hytrach na'r ymgymerwyr statudol. Fel a nodir yn Ffigur 3, mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r amser a'r costau sy'n deillio o'r oedi cysylltiedig yn dal i fod yn asgwrn cynnen rhwng Costain a Llywodraeth Cymru.

Ffigur 4: Codiadau yn y costau rhagamcanol i bwrs y wlad ers mis Mehefin 2011

Mae'r ffigyrau hyn yn adlewyrchu'r costau y mae Llywodraeth Cymru yn derbyn atebolrwydd amdanynt ar hyn o bryd. Gallai canlyniad prosesau datrys anghydfod sy'n mynd rhagddynt olygu bod y gost i bwrs y wlad yn cynyddu neu'n gostwng, a gallai costau eraill godi nes bod y prosiect wedi'i gwblhau. Nid yw'r costau a ddangosir yn Ffigur 4 yn cynnwys asesiad o effeithiau'r canlyniad cymrodeddu diweddar ar gostau sydd, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, yn dal i gael ei asesu'n llawn gan Lywodraeth Cymru a Costain.

Barn Costain yw bod yr amcangyfrifon diweddaraf o rwymedigaethau Llywodraeth Cymru wedi'u tanddatgan. Barn Llywodraeth Cymru yw bod y ffigyrau'n cynrychioli lwfans rhesymol ar gyfer ei rhwymedigaethau yn seiliedig ar y penderfyniadau dyfarnu hyd yma.

| | | £ miliwn[1] | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Mehefin 2011** (penodi contractwr Ymwneud Cynnar trwy gontract Rhan 1)[2] | **Rhagfyr 2014** (dyfarnu contract dylunio manwl ac adeiladu Rhan 2) | **Ionawr 2018** | **Tachwedd 2019** |
| Gwariant hanesyddol – gan gynnwys dyluniad a amlinellol a datblygu | 4.4 | 19.7 | 19.7 | 19.7 |
| Cost darged y contract dylunio manwl ac adeiladu | 110.2 (cost darged gychwynnol) | 159.5 | 159.5 | 159.5 |
| Newid a gyfarwyddwyd | | | 14.8 | 16.7 |
| Amcangyfrif o gyfran Llywodraeth Cymru o'r boen a rhwymedigaethau disgwyliedig ar gyfer dyfarniadau o blaid Costain | | | 40.6 | 80.5 |
| Costau ymgymerwyr statudol | 3.9 | 15.2 | 23.2 | 18.2 |

Tudalen y pecyn 134

| | £ miliwn[1] | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Mehefin 2011** (penodi contractwr Ymwneud Cynnar trwy gontract Rhan 1)[2] | **Rhagfyr 2014** (dyfarnu contract dylunio manwl ac adeiladu Rhan 2) | **Ionawr 2018** | **Tachwedd 2019** |
| Risg (gan gynnwys ffioedd cyfreithiol) | 16.5 | 14 | 5.3 | 4.7 |
| Tuedd optimistiaeth[3] | 45.1 | | | |
| Costau Asiant y Cyflogwr[4] | 3.0 | 2 | 4.8 | 8.5 |
| Tiroedd | 7.3 | 11 | 11 | 11.0 |
| Costau eraill | 3.3 | 1.8 | 2.4 | 2.4 |
| **Is-gyfanswm (costau i bwrs y wlad)** | **193.7** | **223.2** | **281.3** | **321.1** |
| Amcangyfrif o gyfran Costain o'r boen | 0 | 0 | [wedi'i hepgor][5] | [wedi'i hepgor][5] |
| **Cyfanswm cost y prosiect** | **193.7** | **223.2** | [wedi'i hepgor][5] | [wedi'i hepgor][5] |

1. Mae TAW na ellir ei hadennill wedi'i chynnwys yn yr holl symiau.
2. Mae costau 2011 yn cynnwys tybiaeth y byddai TAW yn ôl cyfradd o 8% yn cael ei thalu ar gostau adeiladu; felly caiff y gost darged gychwynnol a oedd wedi'i chynnwys yn nhendr Costain o £102 miliwn ei chofnodi yma fel £110.2 miliwn. Ar ôl 2011, mae'r ffigyrau'n tybio TAW yn ôl cyfradd o 5% ar gostau adeiladu.
3. Mae tuedd optimistiaeth yn golygu cynyddu amcangyfrifon o ran costau yn ôl canran benodedig i adlewyrchu tystiolaeth o danamcangyfrif o ymyriadau tebyg blaenorol.
4. Mae'r codiadau yng nghostau Asiant y Cyflogwr wedi deillio o ganlyniad i newid a gyfarwyddwyd gan Lywodraeth Cymru ac fe'u telir gan ddigwyddiadau iawndal dan ei chontract gydag Arcadis. Mae'r cynnydd sylweddol yn y gost yn adlewyrchu'r heriau y daethpwyd ar eu traws trwy gydol y prosiect.
5. Mae cyfran Costain o'r boen yn adlewyrchu tybiaethau Llywodraeth Cymru ynghylch ei atebolrwydd am rai costau yn seiliedig ar y penderfyniadau dyfarnu hyd yma. Rydym wedi hepgor y ffigyrau hyn o'r adroddiad ar sail sensitifrwydd masnachol, er bod Costain wedi datgelu peth gwybodaeth wrth y farchnad am oblygiadau posibl. Pan fo Llywodraeth Cymru wedi adrodd yn flaenorol ar gostau'r prosiect, mae wedi gwneud hynny ar sail y costau a amcangyfrifir i bwrs y wlad.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

5.14 Gallai Llywodraeth Cymru fod wedi dewis rhoi'r gorau i adeiladu'r prosiect, neu rannau o'r prosiect i osgoi'r gwariant ychwanegol. Fodd bynnag, roedd y gwaith adeiladu ar gyfer y prosiect eisoes wedi bod yn mynd rhagddo am ddwy flynedd pan ddaeth maint y codiadau tebygol yn y gost i'r amlwg. Byddai rhoi'r gorau iddo wedi gadael y ffordd a'r amgylchedd o'i hamgylch mewn cyflwr anniogel gan olygu bod angen rheolaeth traffig hirdymor a chyda'r prif amcan, sef deuoli'r llwybr cyfan, heb ei gyflawni. Byddai hefyd wedi gadael Llywodraeth Cymru yn agored i rwymedigaethau pellach tuag at Costain am elw wedi'i golli o ganlyniad i'r gwaith a fyddai heb ei gwblhau. Mae gan Lywodraeth Cymru yr opsiwn i derfynu contract Costain a phenodi contractwr newydd i orffen y prosiect hefyd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn ymwybodol y byddai gweithredu yn y fath fodd yn achosi oedi sylweddol pellach a chostau pellach tebygol, gan gynnwys atebolrwydd am iawndal i Costain, ac ar ôl dod i'r casgliad y byddai'n annhebygol o ddangos gwerth am arian.

5.15 Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod wedi ystyried a chymryd ystod o gamau gweithredu eraill i geisio gwella'r modd y caiff y prosiect ei gyflawni a'i gostau ac yng nghyd-destun rheoli'r prosesau datrys anghydfod ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys cynyddu'r adnoddau technegol a masnachol ar safleoedd i adolygu allbynnau, herio tybiaethau ac adnabod cyfleoedd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym hefyd ei bod yn parhau i gynnal her dechnegol fanwl o fethodoleg dylunio ac adeiladu Costain mewn ardaloedd penodol ar hyd y llwybr.

# 6. Perfformiad y prosiect ar y cyfan a'i fanteision ehangach

6.1 Er bod y prosiect yn wynebu oedi sylweddol a chodiadau sylweddol yn y gost, mae eisoes wedi dwyn manteision ehangach ac wedi cael cydnabyddiaeth ehangach, er enghraifft:

a mae academi hyfforddiant adeiladu wedi cael ei chyllido gan Lywodraeth Cymru ac yn cael ei rheoli gan Costain. Defnyddir y ganolfan fel safle'r Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Adeiladu ac fe'i datblygwyd gyda Bwrdd Hyfforddiant y Diwydiant Adeiladu (CITB). Rhan 2 yw'r unig brosiect seilwaith mawr yng Nghymru ar hyn o bryd sydd â statws 'Academi Sgiliau Genedlaethol' y CITB ac mae'r prosiect wedi cyflogi 70 o brentisiaid.

b enillodd y prosiect Wobr Datblygu Pobl Rhagoriaeth Adeiladu yng Nghymru 2017 am ehangu cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer ei staff ei hun, ei gadwyn gyflenwi a'r gymuned leol. Roedd pwyslais ar annog menywod i ymuno â'r diwydiant adeiladu. Cafodd y prosiect wobrau Rhagoriaeth Adeiladu yng Nghymru am arloesi ac iechyd, diogelwch a lles yn 2018 ac am gynaliadwyedd yn 2019 hefyd. Mae gwaith yn y gymuned gan a chyda rhanddeiliaid ar y prosiect wedi cael ei gydnabod gan Busnes yn y Gymuned hefyd ac mae'r prosiect wedi cael pum gwobr gan y Gymdeithas Frenhinol ar gyfer Atal Damweiniau am ddiogelwch.

c mae gwerth tua £140 miliwn o archebion wedi cael eu rhoi i gwmnïau yng Nghymru (67% o wariant y contract) tra bo 66% o'r gweithlu'n Gymry.

ch enillodd y prosiect un o'r Gwobrau Afal Gwyrdd Rhyngwladol yn 2017 am ddiogelu cynefinoedd ac amrywiaeth[17].

d mae tri deg chwech hectar o dir wedi cael ei gaffael ar gyfer plannu coed. Erbyn diwedd y prosiect, mae Costain yn bwriadu bod wedi plannu mwy na 72,000 o goed. Roedd y prosiect hefyd yn cynnwys adleoli cerddinen wen Gymreig brin iawn (100 ohonynt sydd mewn bodolaeth). Cafodd y goeden ei chludo ymaith i dir a gafodd ei gaffael yn lleol lle mae'n cael ei meithrin a'i monitro.

17 Rhoddwyd y wobr gan y Sefydliad Gwyrdd. Grŵp amgylcheddol anwleidyddol, dielw, annibynnol, rhyngwladol yw'r Sefydliad Gwyrdd sy'n ymroddedig i gydnabod, gwobrwyo a hyrwyddo arfer gorau amgylcheddol ledled y byd.

6.2 Mae’r prosiect yn cynnwys defnyddio 50 o ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer amryw agweddau ar y modd y mae Costain yn cyflawni’r gwaith dan y contract. Caiff y marciau yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol eu pennu gan Lywodraeth Cymru ac Asiant y Cyflogwr a’u cytuno gyda Costain. Mae’r dangosyddion perfformiad allweddol yn rhoi sylw i wasanaeth (er enghraifft rheoli’r gadwyn gyflenwi ac arloesi ganddi), ansawdd, ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau, amser, cost, iechyd a diogelwch a’r amgylchedd. Mae sgoriau Costain wedi bod yn gyson yn uchel ar gyfer bron pob dangosydd perfformiad allweddol ac eithrio amser a chost. Mae’r sgoriau uchaf a gafwyd yn ymwneud ag iechyd a diogelwch a’r amgylchedd. Mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn adolygu’r dangosyddion perfformiad allweddol a ddefnyddir yn ei chynlluniau trafnidiaeth gan ei bod yn cydnabod y gall fod ffocws annigonol yn ei dangosyddion cyfredol ar berfformiad rhaglenni a pherfformiad ariannol.

6.3 Ar ddechrau’r gwaith adeiladu ym mis Rhagfyr 2014, cytunodd Llywodraeth Cymru a Costain y byddai angen cau Rhan 2 ar ei hyd i gyd am chwe phenwythnos i alluogi gwaith adeiladu i fynd rhagddo heb beryglon a chyfyngiadau cysylltiedig traffig yn llifo gerllaw. Roedd hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Costain yn yr ymchwiliad cyhoeddus, i’w gwneud yn bosibl gosod pomprennau dros yr A465. Yn ôl y sefyllfa ar ddiwedd mis Tachwedd 2019, roedd y rhan o’r ffordd wedi bod ar gau am 57 o benwythnosau ac wedi cael ei chau dros nos ar 75 o ddiwrnodau yn ystod yr wythnos. Mae’r achosion o gau’r rhan hon o’r ffordd wedi bod yn cael eu cytuno gyda Llywodraeth Cymru i alluogi Costain i gwblhau gwaith y mae’n anniogel ei wneud ochr yn ochr â thraffig byw yn eu tyb hwy ac mewn ymdrech i optimeiddio’r gost a’r rhaglen ar gyfer cyflawni. Mae nifer yr achosion o gau’r ffordd wedi arwain at gwynion gan yrwyr sydd wedi bod yn cael eu dargyfeirio oddi ar eu llwybr arferol ar hyd yr A465 a chan drigolion lleol sy’n gweld mwy o draffig ar ffyrdd lleol o ganlyniad i’r ffaith nad yw gyrwyr yn dilyn llwybr y gwyriad swyddogol. Mae nifer o fusnesau lleol wedi codi pryder ynghylch effaith y prosiect hefyd.

6.4 Er nad ydym wedi ystyried y materion hyn mewn manylder, mae Costain a Llywodraeth Cymru wedi bod yn cydweithio i fynd i’r afael â’r materion cau. Mae’r gwaith hwnnw wedi cynnwys arwyddion ffordd gwell, cyfnodau hysbysu a datblygiadau o ran cyfathrebu digidol sydd ar y cyd yn cwmpasu 16,000 o unigolion a busnesau. Mae gan y prosiect ganolfan ymwelwyr sydd wedi’i neilltuo iddo ac yn ogystal â’r oriau agor arferol bu dwy arddangosfa wythnos o hyd, a’r rheiny’n denu dros 200 o aelodau’r cyhoedd i’r arddangosfa ddiweddaraf. Ar y cyfan, mae Costain yn amcangyfrif bod dros 6,000 o aelodau o’r cyhoedd wedi cymryd rhan mewn cyflwyniadau ar y prosiect.

6.5 Mae gwaith allgymorth cymunedol ehangach wedi cynnwys ymgysylltu ag ysgolion lleol trwy weithgareddau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) y mae Costain yn amcangyfrif eu bod wedi cyrraedd ymhell dros 8,000 o ddysgwyr. Yn dilyn anogaeth gan Lywodraeth Cymru yng nghyd-destun ei phwyslais ehangach ar fanteision cymunedol, fe wnaeth Costain hefyd gydlynu dros 40 o gwmnïau lleol i gynorthwyo yn y prosiect o £400,000 i adnewyddu a gwella’r ardd goffa yn Hosbis Plant Tŷ Hafan. Mae’r cwmni hefyd yn dweud iddo fod wedi codi £130,000 i elusennau lleol yn ystod y prosiect.

# Atodiad 1 – Dulliau caffael a ddefnyddiwyd ar gynllun yr A465 yn ei gyfanrwydd

| | Eglurhad |
|---|---|
| Dylunio ac adeiladu – wedi'i ddefnyddio ar rannau 1 a 4[18] | Mae perchennog y prosiect yn dechrau trwy gaffael sefydliad ymgynghori/dylunydd i ddatblygu dyluniad amlinellol a mynd â'r prosiect drwy'r broses gydsynio statudol. Unwaith y mae'r sefydliad/dylunydd wedi gorffen y cam dylunio, gwahoddir cwmnïau contractio cyffredinol i dendro am y prosiect. Dyfernir y contract adeiladu i'r contractwr â'r cynnig a gafodd y sgôr uchaf. Y contractwr hwnnw sy'n gyfrifol am ddatblygu dyluniad manwl ac adeiladu'r prosiect yn ôl y cynlluniau amlinellol a grëwyd gan y sefydliad/dylunydd ac yr aethpwyd â hwy drwy'r broses gydsynio. |
| Ymwneud Cynnar gan Gontractwr (ECI) – wedi'i ddefnyddio ar adrannau 2 a 3 | Dull yw Ymwneud Cynnar sydd wedi'i fwriadu i arwain at fwy o sicrwydd ynghylch y gost ac amser trwy gynnwys y contractwr adeiladu yn y gwaith cynnar i ddatblygu prosiect. Mae perchennog y prosiect yn dyfarnu'r prosiect cyfan mewn enw i un cwmni i'w ddylunio a'i adeiladu. Unwaith y mae wedi'i benodi, ceir disgwyliad bod y contractwr yn gyfrifol am yr holl waith dylunio ac adeiladu sy'n ofynnol i gwblhau'r prosiect. Fodd bynnag, mewn realiti mae dau gontract, a'r rheiny wedi'u rhannu rhwng datblygu'r dyluniad (Rhan 1) ac adeiladu (Rhan 2).<br><br>Mae cynnwys y contractwr adeiladu ar adeg gynnar yn eu galluogi i fod yn rhan o'r gwaith dylunio cynnar, gwaith cynllunio, gwaith amcangyfrif costau a phrosesau statudol megis ymchwiliadau cyhoeddus. Y nod yn hyn o beth yw bod y contractwr yn fwy cyfarwydd â dyluniad y prosiect, amodau'r safle a'r materion allweddol sydd o bwys i randdeiliaid. Mae hyn o gymorth i fynd â'r prosiect drwy'r amryw brosesau statudol yn ogystal â chynllunio'r gwaith adeiladu cyn bod gwaith yn dechrau ar y safle.<br><br>Mae'r dull hwn hefyd yn ei gwneud yn bosibl i berchennog y prosiect ymdrin ag un ffynhonnell trwy gydol y prosiect, yn hytrach na chydgysylltu rhwng amryw bartïon. Mae opsiwn o hyd i'r naill ochr neu'r llall derfynu'r contract heb gosb cyn bod y gwaith adeiladu'n dechrau, os na fydd y perchennog neu'r contractwr yn dymuno bwrw ymlaen â'r contract. |

18 Yn nhermau cost, gallai'r ddwy ran gyntaf o'r cynllun i wella'r A465 Blaenau'r Cymoedd a gwblhawyd fod wedi bod yn addas ar gyfer Ymwneud Cynnar (Rhan 1 – Y Fenni i Gilwern; Rhan 4 – Tredegar i Dowlais Top). Ni wnaeth Llywodraeth Cymru fabwysiadu'r dull hwn am nad oedd y gweithdrefnau statudol wedi cael eu cwblhau pan oedd bwriad yn wreiddiol y byddai cynllun Blaenau'r Cymoedd yn ei gyfanrwydd yn cael ei gyflawni fel prosiect Menter Cyllid Preifat.

| | Eglurhad |
|---|---|
| Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM)[19] – i'w ddefnyddio ar rannau 5 a 6 | Datblygwyd y Model Buddsoddi Cydfuddiannol gan Lywodraeth Cymru i gyllido prosiectau cyfalaf mawr oherwydd prinder cyllid cyfalaf. Pan fo cynlluniau'n defnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol mae partneriaid yn adeiladu ac yn cynnal a chadw asedau cyhoeddus am gyfnod o amser unwaith y maent yn weithredol. Yn gyfnewid, mae Llywodraeth Cymru yn talu ffi i'r partner preifat, sy'n cwrdd â chost adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw a chyllido'r prosiect. Ar ddiwedd y contract mae'r ased yn cael ei drosglwyddo i berchnogaeth gyhoeddus. |

19 Ym mis Tachwedd 2019, cyhoeddodd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol adroddiad ar ei **Ymchwiliad i Ffynonellau Cyllido Cyfalaf Llywodraeth Cymru**. Roedd yr adroddiad yn cynnwys sylwebaeth ar y Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

# Atodiad 2 – Llinell amser digwyddiadau pwysig ar gyfer yr A465 Rhan 2

**1994**

Y Swyddfa Gymreig yn cyflwyno opsiynau o ran llwybrau ar gyfer cynllun deuoli'r A465 yn ei gyfanrwydd ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd.

**1995**

Yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyhoeddi'r llwybr a ffefrir ar gyfer y cynllun yn ei gyfanrwydd.

**1998**

Cynnal ymchwiliad lleol cyhoeddus i'r cynllun yn ei gyfanrwydd.

**1999**

Yr Ysgrifennydd Gwladol yn cadarnhau'r llwybr ar gyfer deuoli gan wneud gorchmynion llinell ar gyfer y cynllun yn ei gyfanrwydd.

**2000**

Llywodraeth Cymru yn rhannu cynllun yr A465 yn chwe rhan.

**Ebril 2009**

Llywodraeth Cymru yn penodi EC Harris (Arcadis) fel Asiant y Cyflogwr, a hwythau'n cael eu cefnogi gan Jacobs fel eu hymgynghorydd technegol.

**Mawrth 2010**

Cyhoeddi hysbyseb OJEU ar gyfer contractwr Ymwneud Cynnar.

**Mehefin 2011**

Llywodraeth Cymru yn dyfarnu'r contract Ymwneud Cynnar Rhan 1 i ddatblygu'r dyluniad amlinellol, pennu cost darged y cytunwyd arni'n gytundebol ar gyfer y gwaith dylunio manwl ac adeiladu, cwblhau'r asesiad effaith amgylcheddol a chwblhau'r broses statudol i Costain.

**Rhagfyr 2012**

Llywodraeth Cymru a Costain yn llofnodi'r contract ar gyfer Rhan 1 ar 13 Rhagfyr 2012 gyda gwaith dan Ran 1 wedi symud ymlaen yn y cyfamser dan Hysbysiad i Fwrw Ymlaen a gyhoeddwyd yn gynharach.

**Hydref 2013**

Y Gweinidog yn cytuno bwrw ymlaen i gyhoeddi gorchmynion drafft ar gyfer Rhan 2. Y gorchmynion drafft yn nodi'r prosiect diffiniedig ac yn amlinellu'r awdurdod i brynu tir yn orfodol, cau strydoedd neu ddiddymu hawliau tramwy preifat, neu wneud gwaith amddiffynnol.

**O fis Mawrth i fis Mai 2014**

Ymchwiliad lleol cyhoeddus ar gyfer Rhan 2 gerbron arolygydd annibynnol. Yr Arolygiaeth Gynllunio yn dod i'r casgliad bod achos cymhellol dros fwrw ymlaen â'r prosiect. Yr Arolygiaeth yn dweud y byddai'r prosiect yn dwyn budd mawr i'r cyhoedd, trwy wella diogelwch ar y ffyrdd, gwella effeithlonrwydd traffig ac adfywio economaidd.

### Medi 2014

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn cytuno y gall y prosiect fynd yn ei flaen ac yn cytuno i wneud y gorchmynion ar gyfer Adran 2.

### 16 Hydref 2014

Y cyfnod herio chwe wythnos yn dod i rym.

### 27 Tachwedd 2014

Llywodraeth Cymru ddim yn cael unrhyw heriau i'r cynigion ar gyfer y prosiect, sydd felly'n caniatáu i'r gorchmynion ddod i rym. Mae hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gaffael tua 122 hectar o dir, y mae'r mwyafrif ohono'n dir amaethyddol, yn dir diwydiannol diffaith ac yn goetir.

### Rhagfyr 2014

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn cytuno y dylid dyfarnu'r contract ar gyfer y gwaith manwl i Costain ac y dylid symud ymlaen i'r cam dylunio manwl ac adeiladu – Rhan 2 o'r broses Ymwneud Cynnar ac iddi ddau gam. Cyhoeddi Hysbysiad i Fwrw Ymlaen i alluogi'r gwaith adeiladu i ddechrau heb gontract wedi'i lofnodi.

### Diwedd Rhagfyr 2014

Y gwaith adeiladu'n dechrau.

### Ionawr 2015

Llywodraeth Cymru yn dyfarnu'r contract ar gyfer Rhan 2 yn ffurfiol i Costain.

### Awst 2015

Llywodraeth Cymru a Costain yn llofnodi'r contract ar gyfer Rhan 2 ar 11 Awst 2015 gyda'r gwaith dan Ran 2 wedi symud ymlaen yn y cyfamser dan yr Hysbysiad i Fwrw Ymlaen a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2014.

### Yn gynnar yn 2017

Mae costau adeiladu cynyddol yn peri pryder sylweddol i Lywodraeth Cymru.

### Ebrill 2017

Llywodraeth Cymru yn awgrymu wrth Costain y dylid defnyddio dyfarnwr i ddatrys anghydfod ynghylch atebolrwydd am gostau. Costain yn gwrthod y cais.

### Mehefin 2017

Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu'n ffurfiol at Costain i ofyn iddo ailystyried yr awgrym y dylid ceisio proses ddyfarnu i ddatrys yr anghydfod ynghylch atebolrwydd am gostau. Roedd yn dal i fod yn well gan Costain ddatrys unrhyw anghydfod trwy drafod a chytuno.

### Tachwedd 2017

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn dilyn adolygiad masnachol gan swyddogion Llywodraeth Cymru ac yn dynodi bod costau Llywodraeth Cymru yn debygol o fod 23% yn uwch na'r gyllideb o £223 miliwn.

**Ionawr 2018**

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith yn cymeradwyo cynnydd o £58 miliwn i'r gyllideb ar y cyfan (26%).

**Ionawr 2018**

Llywodraeth Cymru yn cychwyn prosesau dyfarnu yn erbyn Costain ar dri mater ar wahân heb gytundeb Costain (fel yr oedd hawl ganddi i'w wneud dan y contract).

**Gorffennaf 2018**

Costain yn cychwyn ei phroses ddyfarnu ei hun ynghylch wal gynnal benodol.

**Ionawr 2019**

Llywodraeth Cymru yn cychwyn proses ddyfarnu yn erbyn Costain ynghylch wal gynnal arall.

**Ebrill 2019**

Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth yn cyhoeddi cynnydd pellach o £54.9 miliwn i'r gyllideb ar y cyfan.

**Mehefin 2019**

Llywodraeth Cymru yn cychwyn achos gymrodeddu yn erbyn Costain ynghylch mater y penderfynwyd arno'n flaenorol o blaid Costain mewn proses ddyfarnu.

**Gorffennaf 2019**


Costain yn cychwyn proses ddyfarnu bellach ar faterion a oedd yn ymwneud â gwaith ar gyflenwadau cyfleustodau.

**Rhagfyr 2019**

Mae penderfyniad cymrodeddu'n gwrthdroi'r penderfyniad dyfarnu blaenorol yn rhannol.

# Atodiad 3 – Proses Cymeradwyo Camau Allweddol Llywodraeth Cymru

Mae'r ffigur isod yn crynhoi'r broses Cymeradwyaeth Camau Allweddol ar gyfer prosiectau trafnidiaeth Llywodraeth Cymru.




Mae'r Adroddiad Cyhoeddi Gorchmynion yn manylu ar y gorchmynion a'r gweithdrefnau statudol cysylltiedig sy'n darparu'r awdurdod cyfreithiol angenrheidiol i gyflawni prosiect. Maent yn cynnwys gorchmynion llinell (i sefydlu'r llwybr ar gyfer ffordd newydd), gorchmynion ffyrdd ymyl (sy'n cysylltu ffyrdd lleol sy'n gysylltiedig â chynllun ffordd newydd) a gorchmynion prynu gorfodol (prynu tir). Caiff hysbysiad o orchmynion drafft ei gyhoeddi yn y wasg leol ac ymdrinnir â gwrthwynebiadau trwy Ymchwiliad Cyhoeddus.

Lle mae Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dull Ymwneud Cynnar, byddai'r broses dendro'n digwydd yn gynnar yng Ngham Allweddol 3, yn hytrach nag yn ystod Cam Allweddol 5.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

# Atodiad 4 – Partion allweddol sy'n rhan o'r A465 Rhan 2

| Sefydliad | Rôl |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | Perchennog y prosiect. |
| Costain | Contractwr dylunio amlinellol Ymwneud Cynnar gan Gontractwr yn y contract Rhan 1 a chontractwr adeiladu yn y contract Rhan 2. |
| Arcadis | Wedi'i benodi fel Asiant y Cyflogwr ac roedd gwasanaethau'n cynnwys:<br>• Caffael contractwr Ymwneud Cynnar gan Gontractwr<br>• Yn ystod camau 3 a 4 (Atodiad 3), cynorthwyo Llywodraeth Cymru i weinyddu'r contract ar gyfer gwasanaethau proffesiynol a rhoi cyngor a chynhorthwy i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r dyluniad (amlinellol) rhagarweiniol a'r broses statudol<br>• Yn ystod cyfnod allweddol 6, gweithredu fel Asiant y Cyflogwr a rhoi cymorth a chynhorthwy i Lywodraeth Cymru<br>• Hefyd yn ystod cyfnod allweddol 6, cyflawni rolau cytundebol ar wahân ac annibynnol Rheolwr y Prosiect a Goruchwylydd â chyfrifoldeb am weinyddu'r contract dylunio ac adeiladu Rhan 2 |
| Halcrow/Atkins | Menter ac y cyd wedi'i his-gontractio i Costain fel dylunydd y prosiect. |
| RPS | Ymgynghorydd amgylcheddol wedi'i is-gontractio i Costain. |
| Jacobs | Ymgynghorydd technegol i Arcadis fel rhan o Asiant y Cyflogwr. Daeth ymwneud uniongyrchol Jacobs â'r rôl hon i ben yn gynnar yn 2018 wedi iddynt gaffael Halcrow (rhan o CH2M Hill) a achosodd wrthdaro buddiannau posibl. |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

# Eitem 8

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon